Arolygiaeth Prawf EM

Arolygiad o'r gwasanaethau prawf yn:

# Uned Gyflawni Gwasanaethau Prawf Abertawe Castell-nedd Port Talbot

Y Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Cymru

Arolygiaeth Prawf EM, Ionawr 2022

# Cynnwys

**Rhagair .......... 3**

**Sgoriau .......... 5**

**Argymhellion .......... 6**

**Cefndir .......... 7**

**1. Darpariaeth sefydliadol .......... 8**

**2. Gwaith llys a goruchwylio achosion .......... 25**

**Atodiad un – Cynnydd yn erbyn argymhellion blaenorol .......... 38**

**Atodiad dau – Data .......... 43**

**Atodiad tri – Dolenni Gwe .......... 56**

**Cydnabyddiaeth**

Arweiniwyd yr arolygiad hwn gan Arolygydd EM, Keith McInnis, gyda chefnogaeth tîm o arolygwyr a chydweithwyr o bob rhan o'r Arolygiaeth. Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran mewn unrhyw ffordd yn yr arolygiad hwn. Heb eu cymorth a'u cydweithrediad, ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosibl.

**Rôl Arolygiaeth Prawf EM**

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yw arolygydd annibynnol gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn adrodd ar effeithiolrwydd gwaith gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid gydag oedolion a phlant.

Rydym yn arolygu'r gwasanaethau hyn ac yn cyhoeddi adroddiadau arolygu. Rydym yn tynnu sylw at arferion da a gwael, ac yn defnyddio ein data a'n gwybodaeth i annog gwasanaethau o ansawdd uchel. Rydym yn annibynnol ar y llywodraeth, ac yn siarad yn annibynnol.

Cofiwch fod yr enwau yn yr enghreifftiau a roddir gydol yr adroddiad hwn wedi cael eu newid er mwyn diogelu pwy yw'r unigolion dan sylw.

Dechreuodd y gwaith maes ar gyfer arolwg Abertawe Castell-nedd Port Talbot ar 25 Hydref 2021.

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence

neu anfonwch e-bost at psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho i lawr yn:
www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

ISBN 978-1-914478-49-9

© Hawlfraint y Goron 2022

Cyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Prawf EM
Llawr 1af Canolfan Llysoedd Sifil
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

Dilynwch ni ar Twitter
@hmiprobation

# Rhagair

Dyma arolygiad cyntaf o Uned Gyflawni Prawf (PDU) dan ein methodoleg archwilio prawf newydd, a gyflwynwyd ar ôl uno Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRC) a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) yn un gwasanaeth prawf unedig ym mis Mehefin eleni. Mae ein methodoleg newydd wedi cael ei diwygio i fod yn gydnaws â'r model sefydliadol newydd ac mae'n cynnwys cysylltiad mwy clir a mwy pendant rhwng ein sgoriau ar gyfer arwain a rheoli'r gwasanaeth a'r hyn a welwn yn ein harolygiad o achosion unigol; bydd sgoriau gwaeth ar gyfer yr olaf yn awr yn cyfyngu ar y graddau y gallwn eu rhoi i'r cyntaf.

Yng Nghymru, digwyddodd yr uno ar elfennau rheoli dedfrydau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a gwasanaethau'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ym mis Rhagfyr 2019, ac felly mae mwy o amser wedi bod i'r model newydd ymsefydlu. Fodd bynnag, o fewn tri mis i'r uno yng Nghymru, roedd pandemig Covid-19 wedi effeithio ar wasanaethau, gan gyfyngu ar fynediad i swyddfeydd a chyswllt wyneb yn wyneb â phobl ar brawf. Yn Uned Gyflawni Prawf Abertawe Castell-nedd Port Talbot, cafodd effaith y pandemig ei dwysau ymhellach gan ganfod asbestos yn y swyddfa brawf ganolog ym mis Ebrill 2021 lle roedd bron pob gwasanaeth yn cael ei ddarparu, a oedd yn golygu nad oedd y lleoliad hwn yn addas i'r diben mwyach.

Ni ellir gorbwysleisio effaith y ddau ddigwyddiad hyn. Mae wedi golygu bod staff a rheolwyr wedi cael eu gorfodi i ddarparu gwasanaeth llawer mwy cyfyngedig ers mis Mawrth 2020. Mae'n glod, yn benodol, i arweinydd yr Uned a'i dirprwy eu bod wedi cadw gwasanaethau i fynd ac wedi sicrhau bod adeiladau eraill wedi bod ar gael. Mae parhau i ddatblygu gwaith partneriaeth gydag amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid yn brawf o hyn, ac felly hefyd y ffaith y cyflwynwyd nifer o gynlluniau newydd.

Fodd bynnag, er gwaethaf yr ymdrechion hyn, roedd ansawdd y gwaith a wnaed gyda phobl ar brawf yn wan ac mae hyn yn anochel wedi effeithio ar y sgoriau yr oeddem yn gallu eu rhoi ar gyfer safonau arwain a rheoli. Ar draws pob elfen o oruchwylio achosion roedd diffygion, yn enwedig mewn perthynas â gwaith a gynlluniwyd i reoli'r risgiau posibl i eraill a berir gan bobl ar brawf. Er ein bod yn cydnabod bod y cyfyngiadau presennol yn effeithio ar natur ac amlder cyswllt, rydym yn disgwyl y bydd gwaith sy'n ymwneud â risg a diogelwch yn cael ei flaenoriaethu. Ond gwelsom enghreifftiau cyfyngedig o staff yn gwneud hynny.

Yn arbennig, roedd rhai gwahaniaethau sylweddol rhwng yr achosion yn ymwneud â'r rhai ar orchmynion cymunedol a'r rhai ar drwydded ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar. Yn gyson, barnwyd bod mwy o'r olaf yn ddigonol, ac mewn sawl ffordd roedd hyn yn cuddio'r diffygion a oedd weithiau'n druenus mewn achosion gorchmynion cymunedol. Ar ben hynny, gwelsom hefyd fod llai o achosion a aseswyd fel risg ganolig o niwed yn cael eu hystyried yn ddigonol, o'u cymharu ag achosion risg isel a risg uchel. Gan fod dros hanner yr holl achosion yn yr Uned yn cael eu hasesu fel rhai risg ganolig, mae hyn yn cael effaith sylweddol ar ein sgoriau. Byddai'n beth da i'r Uned archwilio'r gwahaniaethau hyn ymhellach er mwyn rhoi gwell ffocws i'w hymdrechion.

Mae'r Uned, fel gyda'r holl wasanaethau prawf ledled Cymru a Lloegr, wedi ei chael yn anodd darparu rhaglenni achrededig a gwaith di-dâl. Roedd mwy na thraean o'r gorchmynion gwaith di-dâl yn dal i fod ag oriau ar ôl i'w cwblhau ar ôl cyrraedd 12 mis ac roedd tri chwarter y gofynion rhaglenni achrededig heb ddechrau eto (er bod y darlun ychydig yn well ar gyfer rhaglenni troseddwyr rhyw). Er bod rhai

rhanbarthau wedi dechrau adfer y ddarpariaeth o ymyriadau i lefelau cyn y pandemig, mae Uned Gyflawni Gwasanaethau Prawf Abertawe Castell-nedd Port Talbot yn dal i gael trafferth, nid oherwydd diffyg ymdrech, ond oherwydd prinder lle ar gyfer darparu a chyfyngiadau Covid-19. Er y dylid annog ymgyrch i leihau'r ôl-groniadau, mae'n hanfodol bod dewisiadau amgen i'r rhaglenni hyn yn cael eu creu'n briodol a bod eu hansawdd yn cael ei sicrhau.

Er y bydd yr Uned Gyflawni a'r uwch reolwyr yn siomedig gyda chanlyniadau'r arolygiad hwn, fy ngobaith a'm cred yw y byddant yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt gan y tîm rhanbarthol yng Nghymru i barhau i wella ar ôl y pandemig a gwella ansawdd eu gwaith gyda phobl ar brawf. Dymunaf lwc iddynt gyda'u hymdrechion.



**Justin Russell**
Prif Arolygydd Prawf

# Sgoriau

| | | |
|---|---|---|
| Uned Gyflawni Gwasanaethau Prawf (PDU) Abertawe, Castell-nedd Port Talbot | Sgôr | **4/27** |
| **Sgôr gyffredinol** | **Annigonol** | |
| **1. Darpariaeth sefydliadol** | | |
| 1.1 Arweinyddiaeth | Angen gwella | |
| 1.2 Staff | Angen gwella | |
| 1.3 Gwasanaethau | Annigonol | |
| 1.4 Gwybodaeth a chyfleusterau | Angen gwella | |
| **2. Gwaith llys a goruchwylio achosion** | | |
| 2.1 Gwaith llys | Angen gwella | |
| 2.2 Asesu | Annigonol | |
| 2.3 Cynllunio | Annigonol | |
| 2.4 Gweithredu a darparu | Annigonol | |
| 2.5 Adolygu | Annigonol | |

## Argymhellion

O ganlyniad i ganfyddiadau ein harolygiad, rydym wedi gwneud nifer o argymhellion y credwn, os cânt eu gweithredu, y byddant cael effaith gadarnhaol ar ansawdd gwasanaethau prawf.[1]

**Dylai Uned Gyflawni Gwasanaethau Prawf (PDU) Abertawe Castell-nedd Port Talbot:**

1. wella ansawdd y gwaith o ran asesu, cynllunio ar gyfer, rheoli ac adolygu risg o niwed
2. gwella effeithiolrwydd sicrhau ansawdd a goruchwyliaeth rheolwyr dros yr holl waith achos
3. sicrhau bod yr ymyriadau sydd eu hangen i wella ymatal a lleihau aildroseddu a'r risg o niwed yn cael eu darparu ym mhob achos
4. sicrhau bod staff sy'n gyfrifol am oruchwylio rheoli achosion yn cael sgiliau, yr wybodaeth a'r amser i wneud y gwaith yn effeithiol
5. archwilio'r rhesymau dros well gwaith achos yn yr achosion hynny ar drwydded yn dilyn rhyddhau o garchar a defnyddio'r hyn a ddysgwyd i wella effeithiolrwydd mewn mannau eraill
6. archwilio'r rhesymau dros waith achos gwaeth yn yr achosion hynny yr aseswyd eu bod yn peri risg ganolig o niwed, o'i gymharu â'r rheini yr aseswyd eu bod yn risg isel neu uchel/uchel iawn o niwed, a defnyddio'r dysgu hwn i wella ansawdd y gwaith a gyflwynir ar gyfer achosion risg ganolig.

**Dylai'r Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Cymru:**

7. sicrhau bod monitro perfformiad yn canolbwyntio llawer mwy ar effeithiolrwydd y ddarpariaeth.

**Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM:**

8. sicrhau bod lefelau staffio'n cael eu pennu'n gyflym ar gyfer yr Uned a'r rhanbarth
9. datrys y diffyg presennol o ran darparu rhaglenni achrededig a sicrhau bod ansawdd yr ymyriadau a gynigir fel dewis arall yn cael ei sicrhau'n effeithiol.

[1] Mae cynnydd yn erbyn argymhellion arolygiadau blaenorol ar gyfer y CRC neu is-adran NPS perthnasol wedi'i gynnwys yn atodiad un.

# Cefndir

### Uned Gyflawni Gwasanaethau Prawf (PDU) Abertawe Castell-nedd Port Talbot

Mae PDU Abertawe Castell-nedd Port Talbot yn un o chwe PDU yn rhanbarth Cymru, Y Gwasanaeth Prawf, a'r lleill yw PDU Gogledd Cymru, PDU Dyfed Powys, PDU Cwm Taf Morgannwg, PDU Caerdydd a'r Fro a PDU Gwent.

Mae PDU Abertawe Castell-nedd Port Talbot yn gwasanaethu dwy ardal awdurdod lleol, sef Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, ac mae'n cynnwys un carchar sector cyhoeddus (CEM Abertawe).
Mae'n dod o fewn ardal heddlu De Cymru.

O fis Tachwedd 2021 ymlaen, cyfanswm llwyth achosion PDU Abertawe Castell-nedd Port Talbot oedd 1,900, a oedd yn cynnwys 977 o bobl ar ddedfrydau cymunedol, 525 o unigolion yn cael eu goruchwylio ar ôl eu rhyddhau o'r carchar a 398 yn dal yn y ddalfa.[2]

Mae gan PDU Abertawe Castell-nedd Port Talbot amrywiaeth o drefniadau yng nghyswllt rhanddeiliaid a phartneriaethau. Y rhai mwyaf ymysg y rhain yw:

- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol a Rheoli Troseddwyr Integredig De Cymru
- Bwrdd Strategol Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml-Asiantaeth De Cymru
- Bwrdd Diogelu Gorllewin Morgannwg
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Drwy'r rhain, caiff cyfres o is-grwpiau eu ffurfio, gan gynnwys: Abertawe Ddiogelach a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Castell-nedd Port Talbot; Grŵp Rheoli Ansawdd Ymarfer; Bwrdd Rheoli Cyfiawnder Ieuenctid Abertawe; a Grŵp Llywio Rheoli Troseddwyr Integredig Abertawe Castell-nedd Port Talbot.

Ers mis Mehefin, mae rhanbarth prawf Cymru wedi comisiynu pedwar sefydliad i ddarparu gwasanaethau cefnogi ychwanegol. Mae Ymddiriedolaeth Nelson yn darparu gwasanaethau i fenywod. Mae'r Forward Trust yn cynnig cefnogaeth llety ac, er nad ydynt yn darparu llety eu hunain, maent yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r rhai sy'n gwneud hynny. Maent hefyd yn gweithio o fewn Carchar EM Abertawe. Mae partneriaeth grŵp St Giles Wise yn darparu cefnogaeth lles i bobl ar brawf ac mae Maximus yn darparu addysg a hyfforddiant cyflogaeth.
Roedd y sampl achosion a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolygiad hwn yn ymwneud yn rhannol â chyfnod pan oedd PDU Abertawe Castell-nedd Port Talbot yn dal i weithredu o dan fodel darparu eithriadol lefel-goch (EDM), gan gyfyngu ar y cyswllt a oedd yn cael ei gynnig i bobl ar brawf, yn enwedig wyneb yn wyneb. Roedd yr EDM ar waith yn dilyn pandemig Covid-19, a oedd yn mynnu bod gwasanaethau prawf yn ystyried darparu yn unol â chanllawiau iechyd y cyhoedd a'r llywodraeth. Roedd hyn hefyd yn effeithio ar ddarparu gwaith di-dâl a rhaglenni achrededig. Gwaethygwyd y sefyllfa yn Abertawe Castell-nedd Port Talbot ymhellach gan fynediad cyfyngedig i'r swyddfa oherwydd y darganfuwyd asbestos yn swyddfa ganolog Abertawe ym mis Ebrill 2021.

[2] Gwybodaeth o'r adnodd rheoli llwyth gwaith (justice.gov.uk)

# 1. Darpariaeth sefydliadol

Mae effaith pandemig Covid-19 ar Uned Gyflawni Prawf (PDU) Abertawe Castell-nedd Port Talbot, a chau swyddfa ganolog yr Uned yn Nhŷ Gorllewin Morgannwg, Abertawe ym mis Ebrill 2021 pan ddarganfuwyd asbestos, wedi bod yn sylweddol. Serch hynny, mae gwaith strategol, datblygu partneriaethau ac ymgysylltu gyda gwasanaethau sy'n cefnogi ei waith gyda phobl sydd ar brawf yn gryfder sylweddol. Mae gweithredu nifer o gynlluniau i wella'r gwaith hwn yn dangos ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth personol o ansawdd uchel.

Er gwaethaf gwaith strategol mor gadarnhaol ar draws yr Uned, nid yw hyn wedi cael ei drosglwyddo i ymarfer, yn enwedig o ran materion sy'n ymwneud â chadw pobl eraill yn ddiogel. Yn ein hadolygiad o achosion ar draws y pedair elfen asesu, cynllunio, gweithredu ac adolygu, barnwyd fod llai na hanner yr achosion wedi canolbwyntio'n ddigonol ar ddiogelwch. O ganlyniad, rydym wedi rhoi sgôr o 'Angen gwella' i Arweinyddiaeth.

Er nad yw llwyth achosion y staff yn eithriadol o uchel, llai na hanner y staff a gyfwelwyd gennym neu a oedd wedi cwblhau ein harolwg a oedd yn teimlo bod modd ymdopi â'r llwyth gwaith.
I lawer, roedd cymhlethdodau achosion risg ganolig, yn benodol, yn creu pwysau ychwanegol. Atgyfnerthwyd hyn gan ein data adolygu achosion a oedd yn awgrymu bod achosion risg ganolig yn cael eu rheoli'n waelach yn gyson na'r rhai yr aseswyd eu bod naill ai'n risg isel neu risg uchel o niwed difrifol. Mae'n amlwg nad yw hyfforddiant na sicrhau ansawdd yn cael digon o effaith ac, o ganlyniad, rydym wedi nodi bod 'Angen gwella' ar safon y Staff.

Mae bron pob aelod o staff yn ein harolwg yn dweud bod prinder gofod swyddfa i weld pobl ar brawf yn effeithio ar eu gallu i ymgysylltu'n effeithiol. Mae hyn y tu hwnt i reolaeth rheolwyr yr Uned na'r staff rhanbarthol. Rydym wedi sgorio Gwybodaeth a Chyfleusterau fel materion sydd 'Angen gwella'.

Mae prinder gofod swyddfa, yn ddiamheuol, wedi effeithio ar ddarparu gwasanaethau, ac yn benodol ar raglenni achrededig a gwaith di-dâl. Er gwaethaf ymdrechion sylweddol i gadw'r rhain ar waith a helpu adferiad, mae'r ddau faes yn wynebu ôl-groniad sylweddol. Er gwaethaf cyflwyno Atgyfeiriad a Gwerthuso Adsefydlu Gweithredol Canolog (CORRE) a chyfeiriadur sylweddol o wasanaethau sydd ar gael, gwelsom mai dim ond mewn lleiafrif o achosion yr oedd gweithredu a darparu gwasanaethau'n ddigonol i fynd i'r afael ag ymatal neu ddiogelwch pobl eraill. Serch hynny, nid yw hyn yn esbonio pam mae materion sy'n ymwneud â chadw pobl yn ddiogel, cynnal archwiliadau priodol a rhoi'r gweithgarwch angenrheidiol ar waith yn rhy aml yn aneffeithiol.

Felly, nid oes gennym lawer o ddewis ond rhoi sgôr 'Annigonol' i'r Gwasanaethau.

**Cryfderau:**

- Mae gan uwch reolwyr broffil uchel o fewn yr Uned ac maent wedi ymrwymo i wella gwasanaethau.
- Cafodd y gwaith o wagio Tŷ Gorllewin Morgannwg a'r defnydd dilynol o leoliad arall ei reoli'n dda.
- Ceir cysylltiadau strategol rhagorol gydag asiantaethau partner, ac mae'r sefydliad yn weithgar o ran dylanwadu a sbarduno cynlluniau i sicrhau gwelliannau yn y ddarpariaeth.
- Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn teimlo bod yr Uned yn blaenoriaethu ansawdd ac yn hyrwyddo bod yn agored.
- Mae timau arbenigol, rheoli troseddwyr integredig, gwasanaethau i fenywod a'r tîm dedfrydau tymor byr wedi'u hintegreiddio'n dda gydag asiantaethau partner ac maent yn mwynhau ymgysylltu cadarnhaol yn gyffredinol.

**Meysydd i'w gwella:**

- Mae angen i'r Uned ddeall y rheswm pam nad yw hyfforddiant wedi cael mwy o effaith ar ddarparu gwasanaethau fel y gall wella perfformiad.
- Mae sicrhau ansawdd a datblygu staff yn gofyn am fwy o fewnbwn a mewnbwn mwy cyson gan reolwyr canol, ac mae angen i'r sefydliad archwilio sut y gall goruchwylio achosion wella, yn enwedig yng nghyswllt gwaith i gadw pobl eraill yn ddiogel.
- Dylai'r Uned edrych ar y gwahaniaethau rhwng y modd y rheolir achosion gorchmynion cymunedol ac achosion trwydded ar ôl rhyddhau o garchar.
- Dylai'r uwch dîm arwain rhanbarthol uwchgyfeirio pryderon am staffio a chyfleusterau i'r arweinwyr cenedlaethol mewn ymateb i'r materion a godwyd yn ystod yr arolygiad hwn.

### 1.1. Arweinyddiaeth

| | |
|---|---|
| Mae arweinyddiaeth yr Uned yn golygu bod modd darparu gwasanaeth ymatebol, personol o safon uchel i bawb sydd ar brawf. | Angen gwella |

Wrth wneud penderfyniad am arweinyddiaeth, rydym yn ystyried yr atebion i'r tri chwestiwn canlynol:

**A yw gweledigaeth a strategaeth tîm arwain yr Uned yn gyrru'n effeithiol y gwaith o ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i bawb sydd ar brawf?**

Er bod gan arweinydd a dirprwy arweinydd y PDU broffil uchel, bod staff yn meddwl yn uchel ohonynt a bod ganddynt gysylltiadau cryf â phartneriaid lleol, mae'r 20 mis diwethaf wedi bod yn heriol ac nid yw eu gweledigaeth gyffredinol yn cael ei throsi

yn oruchwyliaeth o ansawdd uchel gan ymarferwyr rheng flaen. Roedd llai na hanner yr achosion a arolygwyd gennym o ansawdd digonol ac, o ganlyniad, roedd pedwar o bob pump o'n safonau gwaith achos wedi'u barnu'n 'Annigonol'.

Mae effaith pandemig Covid-19 wedi cael ei gwaethygu gan gau Tŷ Gorllewin Morgannwg ym mis Ebrill 2021, swyddfa ganolog yr Uned yn Abertawe, oherwydd bod asbestos wedi dod i'r amlwg. O ganlyniad anochel, mae'r ffocws strategol wedi bod ar gadw'r gwasanaeth i redeg.

Mae cysylltiadau agos rhwng y PDU a'r rhanbarth ehangach, yn bennaf drwy gynllun busnes gwasanaeth prawf Cymru. Mae cysondeb rhwng y strategaeth ranbarthol a'r cynllun darparu lleol. Mae cynllun darparu PDU Abertawe Castell-nedd Port Talbot 2021 yn amlinellu ei blaenoriaethau strategol fel 'galluogi pobl i fod eu gorau, gan drawsnewid drwy bartneriaeth, bod yn ddiwylliant dysgu agored a moderneiddio ein hystadau a'n technoleg'. Er gwaethaf effaith y pandemig a chau'r swyddfa ar hyn o bryd, mae'n amlwg bod cynnydd wedi parhau yn erbyn y blaenoriaethau hyn.

Yn greiddiol i weithredu'r weledigaeth strategol hon yn effeithiol yw'r berthynas gyda phartneriaid a rhanddeiliaid ar draws yr uned gyflawni. Mae rhanddeiliaid ac asiantaethau partner yn sôn yn gyson am gryfder y berthynas sydd ganddynt â'r PDU. Mae'r prif fforymau y mae partneriaethau o'r fath yn ymddangos drwyddynt yn cynnwys Bwrdd Cyfiawnder Troseddol a Rheoli Troseddwyr Integredig De Cymru, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot a Bwrdd Diogelu Gorllewin Morgannwg.

Mae'n amlwg bod yr Uned yn dylanwadu'n sylweddol ar draws yr ardal, gyda nifer o gynlluniau'n cynnwys: comisiynu gwasanaethau tai'n ddiweddar drwy The Forward Trust sydd bellach yn gyrru'r Tasglu Atal Digartrefedd Rhanbarthol yn uniongyrchol; cymryd rhan yn y gwaith o gydgynllunio prosiect ADDER sef Caethiwed (addiction), Dargyfeirio (diversion), Tarfu (disruption), Gorfodi (enforcement) ac Adferiad (recovery) ym Mae Abertawe; a datblygu dulliau rheoli troseddwyr integredig (IOM) yn ardal Abertawe Castell-nedd Port Talbot yn unol ag IOM Refresh.

Mae cynllun pobl yr Uned yn dwyn ynghyd strategaeth ranbarthol a darpariaeth leol i greu dull gweithredu sy'n seiliedig ar brofiad ymarferwyr ac sy'n ymateb i'w hanghenion. Yn ein harolwg ymarferwyr, dywedodd 77 y cant fod y sefydliad yn blaenoriaethu ansawdd a chadw at dystiolaeth y rhan fwyaf o'r amser neu bob amser. Hefyd, dywedodd 65 y cant fod diwylliant y PDU yn hyrwyddo bod yn agored, herio'n adeiladol a syniadau.

Ceir cysylltiadau effeithiol rhwng uwch reolwyr y PDU a dedfrydwyr. Soniodd dedfrydwyr yn ystod yr arolygiad am y berthynas gadarnhaol gyda staff yn y llysoedd a llinellau cyfathrebu ac atebolrwydd clir gyda rheolwyr. Yn ein harolwg i ddedfrydwyr, dywedodd 82 y cant o'r ymatebwyr fod y berthynas â'r llysoedd wedi'i hen sefydlu, ei chynnal a'i defnyddio'n effeithiol gan y Gwasanaeth Prawf i ddarparu darpariaeth effeithiol i bobl ar brawf.

Mae Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth PDU Abertawe Castell-nedd Port Talbot yn eithaf cynhwysfawr, ac yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion amrywiol pobl ar brawf, ac mae'n cynnwys amcanion cychwynnol sy'n canolbwyntio ar faterion a nodwyd yn arolwg thematig diweddar Arolygiaeth Prawf EM ar *Gydraddoldeb Hiliol ym maes prawf: profiadau defnyddwyr gwasanaeth prawf du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a staff* (Mawrth 2021). Er hynny, mae mwy o waith i'w wneud o hyd i adlewyrchu amrywiaeth y gymuned o fewn proffil staffio'r gwasanaeth ac i ddarparu cefnogaeth ar gyfer yr ystod o anghenion a gyflwynir gan bobl ar brawf.

Mae nifer o gynlluniau'n cael eu gwneud gan yr Uned i wella gwasanaethau a chanlyniadau i bobl sydd ar brawf. Mae hyn yn cynnwys comisiynu gwasanaeth peilot yn ardal Abertawe Castell-nedd Port Talbot i werthuso a darparu cymorth cychwynnol i bobl ar brawf sydd ag anghenion niwroamrywiaeth, sydd i fod i ddechrau ym mis Mawrth 2022. Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd, gan gynnwys cefnogaeth ariannol, i asiantaeth leol sy'n arbenigo mewn gwaith gyda chyn-droseddwyr du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn Abertawe a'r ardaloedd cyfagos. Mae dau gynllun peilot arall yn cynnwys: cynllun peilot cyn dedfrydu yn llys ynadon Abertawe, sy'n un o'r 15 llys ledled y wlad sy'n ymwneud â gwerthuso model darparu amgen sydd â'r nod o wella'r ystod o opsiynau dedfrydu sydd ar gael i ddedfrydwyr; a phrosiect 12 mis sy'n darparu asesiad seicoleg yn y llys ar y cam adroddiad cyn-dedfrydu i ddarparu cynigion ar gyfer gofynion triniaeth iechyd meddwl nad ydynt yn cyrraedd y trothwy clinigol sy'n ofynnol gan y tîm iechyd meddwl cymunedol.

**A yw risgiau posibl i ddarparu gwasanaeth yn cael eu rhagweld a gwaith cynllunio'n cael ei wneud ymlaen llaw ar eu cyfer?**

Mae'r gwaith o reoli safleoedd eraill ar draws y PDU o ganlyniad i'r asbestos a ganfuwyd yn Nhŷ Gorllewin Morgannwg wedi cael ei reoli'n dda ac mae'n adlewyrchu ansawdd y berthynas gydag asiantaethau partner. Fodd bynnag, mae hyn wedi effeithio ar gynnydd gwasanaethau tuag at safonau cenedlaethol ac wedi peri rhwystredigaeth i staff.

Yn 2020, effeithiodd pandemig Covid-19 ar y gwasanaeth pan nad oedd ond tri mis wedi mynd heibio ers iddo drosglwyddo i fod yn wasanaeth unedig. Roedd cau Tŷ Gorllewin Morgannwg, nad oedd yn gysylltiedig â'r uchod, lle'r oedd bron pob gwasanaeth i bobl ar brawf yn cael ei ddarparu a lle'r oedd cymorth rheoli a gweinyddol wedi'i leoli, yn her logistaidd enfawr. Mae'n brawf o ddycnwch y rheolwyr a'r staff y llwyddwyd i gael gafael ar adeilad arall (gyda pharatoadau wrth gefn) o fewn un diwrnod gwaith. Mae hefyd yn adlewyrchiad o ansawdd y berthynas gydag asiantaethau partner bod hyn wedi'i gyflawni mor gyflym.

Ar hyn o bryd mae'r PDU yn gweithredu yn unol â fersiwn 12 y model darparu eithriadol, sy'n golygu bod llawer mwy o gysylltu o bell, dros y ffôn fel arfer, gyda'r rhai ar brawf nag a fyddai fel arfer, gan symud yn raddol tuag at safonau cenedlaethol. Mae cynlluniau ar gyfer darpariaeth mewn amrywiaeth o safleoedd amgen yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, yn ogystal â risgiau cysylltiedig; er enghraifft, ar gyfer cyswllt wyneb yn wyneb â throseddwyr risg uchel sy'n cael eu gweld i raddau helaeth yn yr adeilad cymeradwy, Tŷ'r Cei, yn Abertawe, yn ogystal ag yn safleoedd camddefnyddio sylweddau Dyfodol. Mae cynlluniau ar gyfer dychwelyd yn raddol i Dŷ Gorllewin Morgannwg a chynlluniau wrth gefn ar gyfer unrhyw rwystrau i'r amserlen yn cael eu monitro'n rheolaidd drwy'r uwch grŵp rheoli, gan gynnwys y ffaith bod mwy o gyfyngiadau Covid-19 yng Nghymru nag yn Lloegr.

Mae'r amrywiaeth o adeiladau eraill sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn adlewyrchu'r ystod o drefniadau partneriaeth sydd gan y gwasanaeth ac ansawdd y berthynas â rhanddeiliaid. Mae hyn yn cynnwys cydweithio yn adeiladau Dyfodol yn Abertawe a Chastell-nedd, canolfan gymunedol Cynnwys yn Abertawe a'r adeilad dinesig yn Abertawe, sy'n eiddo i Gyngor Abertawe ac yn cael ei weinyddu ganddo. Mae rhaglenni achrededig bellach yn cael eu darparu yn adeilad yr YMCA yn Abertawe hefyd.

Mae cyfarfodydd briffio rheolaidd i staff a rhannu gwybodaeth â staff yn y model darparu sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd (diweddarwyd ddiwethaf ym mis Medi

2021) yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o gynlluniau wrth gefn a threfniadau ar gyfer defnyddio adeiladau arall. Fodd bynnag, yn ein harolwg ymarferwyr, dim ond ychydig dros hanner (53 y cant) o'r ymatebwyr ddywedodd bod newid yn cael ei weithredu a'i gyfleu'n effeithiol. Roedd hyn yn adlewyrchu rhwystredigaeth y staff gyda'r trefniadau presennol.

### A yw'r PDU yn sicrhau bod y model darparu'n diwallu anghenion yr holl bobl ar brawf yn effeithlon?

Nid yw anghenion pobl sydd ar brawf yn cael eu diwallu gan y PDU. Er bod gwasanaethau'n cael eu rheoli ar draws nifer o dimau, gan gynnwys y rheini sy'n arbenigo mewn rhai agweddau ar ddarpariaeth, mae gwaith achos aneffeithiol yn tanseilio'r model darparu.

Mae'r cynllun darparu a'r cynllun pobl yn PDU Abertawe Castell-nedd Port Talbot, yn adlewyrchu'r model rhanbarthol, yn ymgorffori nifer o gynlluniau ledled Cymru ac yn cynnwys rhai prosiectau lleol. Mae cynlluniau lleol sy'n benodol i'r Uned yn cael eu gweithredu neu'n cael eu datblygu dan nawdd y rhanbarth, er enghraifft y cynllun peilot niwroamrywiaeth.

Mae'r ddarpariaeth gwasanaeth ar draws yr Uned wedi'i rhannu'n chwe thîm, gan gynnwys nifer o arbenigeddau – IOM, menywod, a'r tîm dedfrydau tymor byr (STST). Mae'r tri thîm arbenigol wedi'u cysylltu â chynlluniau ehangach ar draws y rhanbarth ond maent hefyd yn adlewyrchu hynodion lleol ac anghenion pobl sydd ar brawf. Er enghraifft, mae'r STST (a gyflwynwyd ym mis Mehefin 2021) wedi sefydlu cysylltiadau agos â Charchar EM Abertawe ac mae'n cynnwys gwasanaeth cyn-rhyddhau ac mae hefyd yn adlewyrchu amcanion cyffredinol y model mabwysiadu-cynnar ledled Cymru.

Mae cyflwyno'r tîm CORRE yn gynharach eleni (Ebrill/Mai) i gefnogi ymarferwyr i ganfod a darparu ymyriadau yn ymddangos yn gynllun cadarnhaol ac roedd ymarferwyr yn ein grŵp ffocws i gyd yn gadarnhaol am ei argaeledd ac yn wybodus am ei ddefnydd. Ymddengys bod dealltwriaeth dda o gynlluniau diweddar eraill, gan gynnwys cyflwyno'r model 'touchpoints' a darparu rhaglenni achrededig i droseddwyr nad ydynt yn droseddwyr rhyw drwy'r tîm ymyriadau.

Ar hyn o bryd, ychydig o waith penodol a wneir i geisio barn pobl ar brawf nac i ymgynghori â nhw ynghylch darpariaeth gwasanaethau ar eu cyfer. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn y safbwyntiau a gawsom gan nifer o bobl ar brawf a fynychodd grŵp ffocws a/neu a gwblhaodd arolwg. Cafodd cynlluniau i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn ar yr adeg y cafodd y gwasanaeth ei uno ym mis Rhagfyr 2019 eu gohirio ar ôl llofruddiaethau Fishmongers Hall a Streatham yn Llundain, ac yna cawsant eu goddiweddyd gan bandemig Covid-19. Atgyfodwyd cynlluniau i fwrw ymlaen â'r gwaith yn ddiweddar a cheisir datganiadau o ddiddordeb i ddatblygu fforwm cynrychioliadol. Er gwaethaf natur gymharol gynnar y gwaith hwn, dywedodd 56 y cant o'r ymatebwyr i'n harolwg ymarferwyr fod barn pobl ar brawf yn cael ei cheisio, ei dadansoddi a'i defnyddio i adolygu a gwella effeithiolrwydd gwasanaethau, y rhan fwyaf o'r amser neu bob amser.

O ystyried lefel y rheolaeth strategol, ansawdd y gwaith partneriaeth a gweithrediad cynlluniau newydd, roedd yn siomedig bod hyn wedi'i adael i lawr gan brinder gwaith achos effeithiol ac, yn benodol, gwaith a oedd yn canolbwyntio ar gadw pobl eraill yn ddiogel, fel y dangoswyd gan ein canlyniadau parth dau.

| **1.2. Staff** | |
|---|---|
| Galluogir staff i ddarparu gwasanaeth ymatebol, personol o ansawdd uchel i bawb sydd ar brawf. | Angen gwella |

Mae'r data yn yr adran hon ac adrannau dilynol yn cael ei ddarparu'n bennaf gan y sefydliad. Mae'n cael ei ddarparu gyda chafeatau ynghylch ei ddibynadwyedd, er iddo gael ei wirio gan ddefnyddio cofnodion cynllunio gweithlu mewnol.

| **Data llwyth achosion a llwyth gwaith** | |
|---|---|
| Llwyth achosion cyfartalog fesul swyddog prawf (PO) (cyfwerth ag amser llawn) (FTE))[3] | 32.53 |
| Llwyth achosion cyfartalog fesul swyddog gwasanaethau prawf (PSO) (FTE) | 37.46 |
| Canran graddfa PO gyda llwyth achosion yn fwy na tharged yr adnodd rheoli llwyth gwaith lleol PO | 27% |
| Canran graddfa PSO gyda llwyth achosion yn fwy na tharged yr adnodd rheoli llwyth gwaith lleol PSO | 20% |
| Cyfran y staff yn yr Uned hon sy'n disgrifio'r llwyth gwaith fel rhywbeth na ellir ymdopi ag ef[4] | 58.8% |

Wrth wneud penderfyniad am staffio, rydym yn ystyried yr atebion i'r pedwar cwestiwn canlynol:

**A yw lefelau staffio a llwyth gwaith yn cefnogi darparu gwasanaeth o safon uchel i bawb sydd ar brawf?**

Er nad yw'r llwythi gwaith ar gyfartaledd ar draws y PDU yn ormodol, dywedodd llai na hanner y staff a arolygwyd eu bod yn gallu ymdopi â'u llwyth gwaith a dywedodd mwyafrif helaeth o'r rhai a arolygwyd, bod lefelau staffio yn annigonol. Er nad oes lefel staffio y cytunwyd arni ar gyfer yr Uned, mae rheolwyr yn ceisio ymateb i'r pwysau a brofir gan staff.

Ar hyn o bryd nid oes lefel staffio y cytunwyd arni ar gyfer y rhanbarth na'r PDU, sydd wedi'i gosod o fewn tîm rhaglen genedlaethol y gweithlu prawf. Rhagwelir y bydd hyn yn cael ei ddatrys erbyn mis Mawrth 2022, ond o ganlyniad, mae'n anodd bod yn hyderus ynghylch y lefelau staffio gofynnol ar draws y rhanbarth. Serch hynny, mae'r arwyddion yn awgrymu bod gan y PDU fwy o staff ar hyn o bryd, sef Swyddogion Prawf (PO) ac uwch swyddogion prawf (SPO), yn eu swyddi ym maes rheoli dedfrydau nag y mae'r lefelau staffio presennol yn eu nodi.

Y llwyth achosion ar gyfartaledd yn rhanbarthol yw 28.09 ar gyfer PO a 40.76 ar gyfer PSO. Yn PDU Abertawe Castell-nedd Port Talbot, mae'r lefelau hyn yn 32.53 a 37.46. Yn ein harolwg ymarferwyr dywedodd 81 y cant fod ganddynt lwyth achosion

[3] Data a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Prawf.

[4] Data arolygu Arolygiaeth Prawf EM.

heb fod yn uwch na 40. Yn ein cyfweliadau ag ymarferwyr sy'n gyfrifol am yr achosion a werthuswyd gennym fel rhan o'n hadolygiad o waith achos, dywedodd 53 y cant fod ganddynt lwyth achosion hyd at 40, gyda 39 y cant arall yn dweud bod eu llwyth achosion rhwng 40 a 50. Roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr un modd yn y sesiynau grŵp ffocws i ymarferwyr a gynhaliwyd gennym.

Er gwaethaf hyn, ar draws y PDU, mae gan 27 y cant o PO lwyth gwaith dros darged y pecyn rheoli llwyth gwaith o 110 y cant; ar gyfer PSO mae'r lefel yn 20 y cant. Er eu bod yn uchel, maent yn cymharu'n ffafriol â'r lefelau rhanbarthol o 44 a 27 y cant.

Dim ond 41 y cant o'r ymatebwyr yn ein harolwg ymarferwyr oedd yn teimlo bod eu llwyth gwaith yn un y gallent ymdopi ag ef. Dyma farn 48 y cant o'r 38 ymarferwr y buom yn eu cyfweld yn rhan o'r arolwg gwaith achos. Mae'r canfyddiadau o'r arolygon, y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws yn dangos bod staff yn credu mai cymhlethdodau'r achosion y maent yn gyfrifol amdanynt sy'n creu'r pwysau. Ymddengys fod hyn yn arbennig o wir yn y timau gwaith achos cyffredinol ac ar gyfer staff sy'n gyfrifol am achosion risg ganolig yn bennaf. Mae ein harolygiad gwaith achos yn dangos mai'r achosion risg canolig, sy'n gyfrifol am 63[5] y cant o lwyth achosion y PDU yn y gymuned ar hyn o bryd, yw'r rheini sy'n llai tebygol o fodloni ein meini prawf ar gyfer digonolrwydd, yn enwedig o ran rheoli risg a chadw eraill yn ddiogel. Mae'n werth nodi bod dau ymarferwr a oedd wedi ymuno â'r PDU yn ddiweddar o ranbarthau prawf yn Lloegr ill dau yn teimlo, o'i gymharu â'u profiad blaenorol, fod gwaith achos yn PDU Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, yn hawdd iawn ymdopi ag ef.

Ar draws y PDU, y gyfradd swyddi gwag ar hyn o bryd yw 18 y cant, gyda'r effaith fwyaf ar staff gweinyddol a PSO, yn bennaf oherwydd dyrchafiad a symud ymlaen i rolau Cymhwyster Proffesiynol mewn Gwaith Prawf (PQiP). Mae lefelau salwch yn gymharol uchel ar draws y PDU, gyda chyfraddau'n effeithio'n bennaf ar PO. Gallai hyn fod yn arwydd o'r pwysau y mae staff yn ei deimlo ar hyn o bryd wrth reoli eu hachosion, wedi'i waethygu gan gyfyngiadau presennol o ran mynediad i'r swyddfa. Cynhelir cyfarfodydd adolygu absenoldeb yn y PDU yn fisol gan gynnwys y dirprwy bennaeth, rheolwyr llinell ac adnoddau dynol. Mae achosion absenoldebau a threfniadau dychwelyd i weithio yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, gan gynnwys absenoldeb tymor hir ar raddfa PO, er nad oes patrwm amlwg. Yn ein harolwg, mae 83 y cant o ymarferwyr yn credu nad yw'r lefelau staffio
yn ddigonol.

Er gwaethaf gwendidau cydnabyddedig y pecyn rheoli llwyth gwaith a dibynadwyedd y data ynghylch lefelau staffio, mae'r llwythi gwaith yn cael eu rheoli a'u monitro'n agos, gyda rhai amrywiadau (rhanbarthol) wedi'u cynnwys i adlewyrchu'r anghenion a ddadansoddwyd.
Er enghraifft, er nad yw'r model cenedlaethol yn cynnwys pwysoliad ar gyfer staff sy'n arbenigo mewn gwaith gyda menywod, mae lwfans o 10 y cant wedi'i gynnwys yng Nghymru. Mae pwysoliad tebyg hefyd yn cael ei roi i'r rheini yn yr STST.

Er bod staff gweinyddol dan bwysau ychwanegol ar hyn o bryd oherwydd eu bod yn gweithio mewn adeilad arall yn lle Tŷ Gorllewin Morgannwg, dywedodd y rhai y siaradwyd â hwy yn ystod yr arolygiad fod pwysau ar eu llwyth achosion ond bod modd ymdopi a'u bod yn disgwyl gwelliannau ar ôl iddynt ddychwelyd i'r brif swyddfa.

---

[5] Gweler troednodyn 2.

Ar hyn o bryd mae SPO yn gyfrifol am rhwng 12 a 18 aelod o staff. Dywedodd y rhai y siaradwyd â hwy fod eu llwyth gwaith yn weddol hylaw, er bod y trefniadau gwaith presennol yn ychwanegu atynt. Mae'n werth nodi, o dan y pandemig, nad oes trefniadau ffurfiol ar waith ar gyfer monitro perfformiad a bod adrodd yn unol â safonau cenedlaethol wedi cael ei lacio, gyda sicrhau ansawdd ffurfiol ddim yn digwydd. Er bod rheolwyr yn cydnabod anawsterau yn eu llwyth gwaith eu hunain, roeddent hefyd yn sôn am gefnogaeth sylweddol gan arweinydd y PDU a'r dirprwy reolwyr arweiniol. Rydym wedi'n calonogi bod seithfed tîm yn cael ei greu o fewn y PDU ym mis Tachwedd, gan gydnabod peth o'r pwysau a roddwyd ar reolwyr canol.

**A yw sgiliau a phroffil staff yn cefnogi darparu gwasanaeth o safon uchel i bawb sydd ar brawf?**

**Nodweddion achosion a arolygwyd[6]**

| | |
|---|---|
| Cyfran y baich achosion sy'n fenywod | 10% |
| Cyfran yr achosion a arolygwyd sy'n ddu, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig | 5% |
| Cyfran yr achosion a arolygwyd sydd ag anabledd | 58% |

Nid yw hyfforddiant a datblygiad effeithiol yn cael ei adlewyrchu yn ansawdd goruchwylio achosion. Mae'r rhan fwyaf o staff yn credu bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth i reoli'r achosion y maent yn gyfrifol amdanynt, a bod diwylliant sefydliadol o ddysgu a gwelliant parhaus ond er gwaethaf hyfforddiant priodol, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu'n gyson yn ansawdd gwaith achos.

Nid yw gweithlu PDU Abertawe Castell-nedd Port Talbot yn adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth leol yn llawn. Mae nifer anghymesur o'r gweithlu (76.7 y cant) yn fenywod. Mae llai nag un y cant o gefndir du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig o'i gymharu ag amcangyfrif o 6.3 y cant ar draws Abertawe ac 1.1 y cant yng Nghastell-nedd Port Talbot.[7] O'r llwyth achosion presennol, daw pump y cant o gefndir du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig.[8] Mae'r gwahaniaethau hyn yn cael eu cydnabod a'u cynnwys fel targedau yn strategaeth y gweithlu (yn rhanbarthol ac yn lleol) ond cydnabyddir bod newid yn debygol o fod yn araf.

Mae hyfforddiant a datblygiad penodol ar gael i'r staff hynny sy'n gweithio yn y timau arbenigol, gan gynnwys gwaith i ddarparu dull gweithio gyda menywod yn seiliedig ar drawma, gwaith ymgysylltu aml-asiantaeth penodol gyda'r heddlu ar gyfer y rheini yn y tîm IOM ac ar gyfer STST, ac integreiddio o fewn swyddogaeth adsefydlu Carchar EM Abertawe. Yn ein harolwg ymarferwyr, dywedodd 83 y cant eu bod bob amser neu'r rhan fwyaf o'r amser yn cael achosion wedi'u dyrannu iddynt yr oedd ganddynt yr wybodaeth briodol ar eu cyfer, y sgiliau a'r profiad i'w rheoli, ac yn ein cyfweliadau ymarferwyr dywedodd 92 y cant fod ganddynt y sgiliau, y profiad a'r wybodaeth angenrheidiol i oruchwylio'r achos a oedd yn cael ei werthuso.

[6] Data arolygu Arolygiaeth Prawf EM.

[7] Gwybodaeth o Ethnigrwydd yn ôl ardal a grŵp ethnig (llyw.cymru)

[8] Data a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Prawf.

Dywedwyd wrthym fod arfarniadau staff blynyddol wedi cael eu hatal yn ystod pandemig Covid-19, er bod y staff y buom ni'n siarad â nhw wedi dweud eu bod wedi cael un. Mae anghenion hyfforddi staff ar draws yr Uned yn cael eu nodi'n bennaf drwy werthuso perfformiad a gwerthuso achosion yn rheolaidd. Ar draws y PDU adeg yr arolygiad, yr oedd 69 y cant o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu oedolion, roedd 74 y cant wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant ac roedd 70 y cant wedi cwblhau hyfforddiant ar drais domestig.
Dywedwyd wrthym hefyd fod hyfforddiant arall, fel yr hyfforddiant sy'n ymwneud â diogelu plant a cham-drin domestig, yn cael ei ddarparu'n rheolaidd gan bartneriaid allanol. Mae'r sefydliad yn cadw set ddata o'r holl hyfforddiant staff ac yn monitro cynnydd yn erbyn amcanion a nodwyd a chyrsiau gorfodol. Mae mwyafrif rhesymol o ymarferwyr (65 y cant) yn ein harolwg yn credu bod diwylliant o ddysgu a gwelliant parhaus yn cael ei hyrwyddo'n weithredol y rhan fwyaf o'r amser neu bob amser.

Er gwaethaf y lefel a'r amrywiaeth o hyfforddiant sydd ar gael, a'r ffaith bod staff yn credu bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i wneud y gwaith a wnânt, mae cwestiwn sylweddol o hyd, yng ngoleuni'r data goruchwylio achosion, ynghylch pa mor effeithiol yw'r hyfforddiant hwn a sut mae'n troi'n ymarfer. Fodd bynnag, cydnabyddir bod argaeledd hyfforddiant wedi cael ei gyfyngu'n ddifrifol yn ystod pandemig Covid-19.

Adeg yr arolygiad, dywedwyd wrthym fod 15 o PQiP yn y PDU ar hyn o bryd (cynnydd o'r adeg y casglwyd data'r sefydliad). Mae nifer o'r rhain wedi dod o'r grwp staff PSO ac mae nifer o'r swyddi gwag hynny wedi'u llenwi gan staff o'r tîm gweinyddol. Er ei fod yn ddull cadarnhaol, mae hyn wedi creu rhywfaint o bwysau ar draws y gwasanaeth, wedi'i waethygu gan oedi cyfartalog o 12 wythnos i gwblhau proses archwilio ganolog y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer staff newydd.

### A yw goruchwylio gwaith yn cefnogi darpariaeth a datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel?

Nid yw goruchwyliaeth yn ddigon i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaeth effeithiol. Mae rhy ychydig o ymarferwyr yn dweud eu bod yn derbyn goruchwyliaeth yn ddigon aml a chanfu ein hadolygiad ein hunain fod goruchwyliaeth gan reolwyr yn aneffeithiol yn rhy aml.

Mewn egwyddor, dylai'r holl staff dderbyn goruchwyliaeth strwythuredig a phenodol bob pedair i chwe wythnos. Disgwylir i reolwyr adolygu achosion gydag ymarferwyr yn rheolaidd a chadarnhaodd y staff y buom yn siarad â hwy fod hyn yn digwydd, ac o fewn y dull goruchwylio ymarfer myfyriol sydd ar waith ar hyn o bryd, mae'n ofynnol cael chwe sesiwn y flwyddyn gyda'r rheolwr llinell. Roedd rhai rheolwyr canol yn cydnabod bod hwn yn faes gwaith a oedd wedi dioddef yn ystod pandemig Covid-19 a chau Tŷ Gorllewin Morgannwg, er eu bod yn pwysleisio'n gyflym eu bod yn cael cyswllt anffurfiol amlach â'u staff er mwyn gwneud iawn am hynny. Er bod 58 y cant o ymarferwyr yn ein harolwg wedi dweud bod goruchwyliaeth wedi gwella ansawdd eu gwaith gyda phobl ar brawf, dim ond 47 y cant ddywedodd eu bod yn derbyn goruchwyliaeth yn ddigon aml. Yn ein hadolygiad o oruchwylio gwaith achos, canfuwyd fod goruchwyliaeth gan reolwyr yn annigonol, yn aneffeithiol neu'n absennol mewn 22 o'r 36 achos yr oedd angen hynny arnynt.

Mae rhaglen gynefino briodol ar waith yn y PDU. Fodd bynnag, mae awyru a chadw pellter cymdeithasol gwael wedi ei gwneud yn anodd, os nad yn amhosibl, cynnig cyfleoedd i gysgodi. Fodd bynnag, mae cyfleoedd wedi cael eu hymestyn o Unedau PDU eraill i bob PQiP ac i PSO newydd. Disgwylir i'r holl staff gwblhau hyfforddiant

craidd fel rhan o’r broses gynefino sydd, yn ystod y cyfyngiadau presennol, wedi cael darparu ar-lein.

O blith ymarferwyr y PDU, mae 65 y cant yn credu bod gan staff o bob cefndir fynediad cyfartal at gyfleoedd hyrwyddo bob amser neu’r rhan fwyaf o’r amser. Er bod proses ffurfiol o reoli perfformiad ar gael, nid yw wedi bod yn angenrheidiol ei rhoi ar waith ers cyn dechrau pandemig Covid-19. Cefnogwyd dau aelod o staff yn anffurfiol yn ystod y cyfnod hwn, gan arwain at gyflawni’r lefel angenrheidiol o berfformiad.

**A yw rheolwyr yn rhoi digon o sylw i ymgysylltu â staff?**

Mae llawer o staff yn teimlo, er eu bod yn llawn cymhelliant i ymgysylltu’n effeithiol yn eu gwaith, bod effaith pandemig Covid-19, sy’n cael ei waethygu gan y trefniadau swyddfa presennol, yn gwneud hyn yn gynyddol anoddach. Mae nifer o gynlluniau i ymgysylltu â staff a darparu cymorth lles wedi cael eu rhoi ar waith gydol yr 20 mis diwethaf.

Mae pob tîm yn cyfarfod o leiaf unwaith yr wythnos ac, yn y rhan fwyaf o achosion, gwneir hyn yn fyw yn hytrach nag o bell. Ffurfiwyd grŵp lles PDU Abertawe Castell-nedd Port Talbot yn dilyn rhai pryderon cynnar am les ac ynysu staff. Mae hyn wedi cynnwys cyflwyno hyrwyddwyr lles, cynghreiriaid iechyd meddwl a chylchlythyr rheolaidd.

Gall staff enwebu cydweithwyr am wobrau ‘Seren’ lle mae gwaith eithriadol yn cael ei gydnabod a gwerthfawrogiad yn cael ei ddangos. Mae’n gadarnhaol bod y cynllun pobl ar gyfer yr Uned wedi’i lunio yn dilyn cyfres o weithdai ymgynghori â staff yn gynharach yn y flwyddyn ac mae’n adlewyrchu llawer o’r pryderon a fynegwyd gan staff. Hefyd cyflwynwyd enwebiad i Ymddiriedolaeth Butler i gydnabod y gwaith a wnaed gan y tîm menywod, yn enwedig mewn perthynas â sefydlu a rhedeg cynadleddau achos amlddisgyblaethol. Yn ein harolwg, dywedodd 65 y cant o’r ymatebwyr fod gwaith eithriadol
yn cael ei gydnabod a’i wobrwyo.

Er gwaethaf hyn, mae’n siomedig mai dim ond 47 y cant yn ein harolwg a ddywedodd fod digon o sylw’n cael ei roi i’w diogelwch y rhan fwyaf o’r amser neu bob amser, a dywedodd yr un gyfran wrthym fod digon o sylw’n cael ei roi i’w lles y rhan fwyaf o’r amser neu bob amser. Yn ôl yr arwyddion, mae llawer o hyn yn canoli ar y trefniadau gweithio presennol a’r defnydd o swyddfeydd eraill.

Dim ond 18 y cant o’r rhai yn ein harolwg a ddywedodd eu bod wedi gorfod gwneud addasiadau rhesymol i’w hamgylchedd gwaith yn unol â nodweddion gwarchodedig, a dywedodd dwy ran o dair ohonynt fod addasiadau priodol wedi cael eu gwneud.

## 1.3. Gwasanaethau

| | |
|---|---|
| Mae ystod gynhwysfawr o wasanaethau o ansawdd uchel ar gael, sy’n cefnogi gwasanaeth ymatebol ac wedi’i deilwra ar gyfer pawb sydd ar brawf. | Annigonol |

Wrth wneud penderfyniad am arweinyddiaeth, rydym yn ystyried yr atebion i dri chwestiwn:

**A yw'r nifer, yr ystod a'r ansawdd cywir o wasanaethau yn eu lle i ddiwallu anghenion pobl sydd ar brawf?**

**Data ymyriadau a gwaith di-dâl**[9]

| | |
|---|---|
| Cyfran y gofynion rhaglenni achrededig ar gyfer unigolion a gafwyd yn euog o drosedd rhywiol nad ydynt wedi dechrau | 64% |
| Cyfran y gofynion rhaglenni achrededig nad ydynt wedi dechrau, ac eithrio ar gyfer unigolion a gafwyd yn euog o drosedd rhywiol | 75% |
| Amser aros ar gyfartaledd i ddechrau gofyniad gweithgaredd adsefydlu | 5.9 wythnos |
| Canran y gofynion gwaith di-dâl gydag oriau yn weddill y tu hwnt i 12 mis | 34% |
| Cyfran yr achosion a arolygwyd lle nododd arolygwyr broblemau camddefnyddio sylweddau[10] | 70% |
| Cyfran yr achosion a arolygwyd lle nododd arolygwyr broblemau camddefnyddio cyffuriau | 48% |
| Cyfran yr achosion a arolygwyd lle nododd arolygwyr broblemau camddefnyddio alcohol | 40% |

Er, mewn theori, bod nifer sylweddol o wasanaethau trawiadol ar draws yr Uned yn cael eu darparu'n fewnol, drwy wasanaethau a gomisiynir, a thrwy asiantaethau partner, ychydig iawn o dystiolaeth a welsom o ddarparu gwasanaeth digonol yn yr achosion a adolygwyd gennym. Dim ond mewn 43 y cant o achosion yr oedd lefel a natur y cyswllt yn ddigonol i leihau aildroseddu a chefnogi ymatal, ac mewn dim ond 40 y cant o'r achosion yr oedd lefel a natur y cyswllt a gynigir yn ddigonol i reoli a lleihau'r risg o niwed. Roedd ôl-groniadau ar gyfer rhaglenni achrededig hefyd yn sylweddol, gyda 64 y cant o'r rhai a nodwyd ar gyfer rhaglenni achrededig i droseddwyr rhyw yn dal i aros i gael eu dechrau a 75 y cant o'r rhai yn aros am y Rhaglen Sgiliau Meddwl neu'r cwrs Meithrin Perthnasoedd Gwell (BBR) yn dal heb fynychu eu sesiwn gyntaf. Roedd dros draean o orchmynion gwaith di-dâl yn dal i fod ag oriau i'w cwblhau ar ddiwedd 12 mis. O ganlyniad, rydym wedi sgorio'r safon hon yn 'Annigonol'.

Mae cyfeiriadur cynhwysfawr o'r rhain ar gael i staff i gefnogi atgyfeiriadau. Mae'r gefnogaeth gan y tîm arbenigol ar gyfer menywod ar brawf yn gadarnhaol ar y cyfan, gan ganolbwyntio ar anghenion menywod a manteisio ar drefniadau partneriaeth gyda'r gwasanaethau a gomisiynir gan Ymddiriedolaeth Nelson ynghyd â gwaith gan brosiect braenaru Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM.

Mae gwasanaethau adsefydlu a gomisiynwyd yn ddiweddar yn ymsefydlu'n dda ond yn parhau yng nghamau cynnar eu gweithredu. Serch hynny, mae The Forward Trust, sy'n cynnig cefnogaeth llety, eisoes wedi derbyn dros 100 o atgyfeiriadau, mae Ymddiriedolaeth Nelson yn gweithio gyda 50 o fenywod ar draws yr Uned, ac mae

[9] Data a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Prawf.

[10] Data arolygu Arolygiaeth Prawf EM.

Maximus (sy'n darparu cyfleoedd addysg a hyfforddiant cyflogaeth) wedi gweithio gydag 88 o unigolion rhwng diwedd mis Mehefin a chanol mis Hydref. Mae grŵp St Giles Wise hefyd yn darparu gwasanaethau lles mewn dwy bartneriaeth, un i ddynion dan 25 oed a'r llall i ddynion dros 25 oed.

Mae cyflwyno CORRE yn gynharach yn y flwyddyn i gefnogi'r gwaith o ganfod, cyfeirio a rheoli ymyriadau wedi cael derbyniad da gan ymarferwyr sy'n ei weld fel dull defnyddiol o gefnogi cysylltiadau â gwasanaethau priodol.

Mae'r gwasanaethau a'r gefnogaeth ar gyfer nodweddion gwarchodedig eraill yn gyfyngedig, er bod rhywfaint o waith diweddar a chymorth ariannol wedi cael ei ymestyn i wasanaeth yn Abertawe sy'n gweithio gyda phobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ar brawf.

Mae effaith Covid-19 a chyfyngiadau estynedig ar swyddfeydd yn cael effaith sylweddol ar ddarparu rhaglenni achrededig. Ers mis Awst, mae rhaglenni wedi cael eu cyflwyno yn adeilad yr YMCA yn Abertawe. Er bod digon o le ar gael i sicrhau darpariaeth ddiogel dan Covid-19, dim ond tri chwrs BBR (a gynlluniwyd i fynd i'r afael â cham-drin domestig) y gellir eu cynnal ar unrhyw adeg benodol. Disgwylir i adeilad arall ddod ar gael o fewn y misoedd nesaf. Mae cyfyngiadau o'r fath ar ofod hefyd yn golygu bod darparu rhaglenni achrededig i fynd i'r afael â throseddau rhywiol yn cael eu darparu mewn PDU arall.

Mae'r tîm ymyriadau'n gweithio, yn briodol, o fewn y canllawiau cenedlaethol ar gyfer blaenoriaethu, ond mae hyn yn golygu nad yw llawer o bobl yn gallu manteisio ar y rhaglen sydd ei hangen arnynt. Lle na fodlonir y meini prawf, disgwylir i ymarferwyr prawf gymryd cyfrifoldeb yn ôl. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn golygu darparu 'pecynnau' cysylltiedig fel rhan o strategaeth y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf i reoli ôl-groniadau, ond ni chafodd y rhain erioed eu llunio fel dewis arall yn lle rhaglenni achrededig ac, wrth i staff eu darparu hyd eithaf eu gallu, mynegodd rhai bryder ynghylch cael yr hyfforddiant angenrheidiol i'w rhoi ar waith ac nad oedd sicrhau ansawdd ffurfiol ar waith. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod y diffyg sicrhau ansawdd hwn yn unol â'r disgwyliadau fel rhan o'r dull gweithredu cenedlaethol dan y model darparu eithriadol.

Ar lefel ranbarthol, mae'r gwasanaeth yn monitro materion anghymesuredd ar gyfer menywod a phobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig mewn perthynas â chwblhau rhaglenni achrededig, tor-amod a galw'n ôl. Nid yw hyn ar gael ar hyn o bryd ar lefel PDU er y cydnabyddir bod hyn yn angenrheidiol. Yn rhanbarthol, ni nodir unrhyw wahaniaethau mewn perthynas â'r canlyniadau hyn.

Yn ein harolwg ymarferwyr, dywedodd 77 y cant o'r ymatebwyr fod ganddynt fynediad at ystod briodol o wasanaethau i ddiwallu anghenion a risgiau pobl sydd ar brawf. Hefyd, dywedodd 82 y cant o'r ymarferwyr hynny y buom yn adolygu eu hachosion fod ganddynt fynediad at ystod briodol o wasanaethau, naill ai'n fewnol, neu drwy asiantaethau eraill, yn benodol i ddiwallu anghenion yr achos dan sylw. Fodd bynnag, ni fu i'n hadolygiad achos gadarnhau bod y ddarpariaeth hon yn cael ei defnyddio'n effeithiol. Er enghraifft, darperir gwasanaethau cyffuriau ledled Cymru gan Dyfodol, gan gynnwys y rhai yng Ngharchar EM Abertawe. Maent yn cynnal ystod helaeth o ymyriadau unigol a grŵp. Yn ein harolwg goruchwylio achosion, gwelsom mewn 28 o achosion fod gan unigolion broblemau cyffuriau neu alcohol o leiaf. Fodd bynnag, er inni weld nifer o ymyriadau cadarnhaol iawn drwy'r sefydliad, mewn 10 yn unig y bu i ni asesu bod gwasanaethau digonol wedi'u darparu.

Mae gwaith di-dâl yn parhau i fod yn her dan y pandemig presennol, ac er bod y ddarpariaeth ledled Cymru ar hyn o bryd oddeutu 80 y cant o'r lefelau cyn y

pandemig, yn Abertawe mae hyn tua 110 y cant, sy'n gadarnhaol. Mae polisi cadarn ar waith i unioni diffygion, yn bennaf drwy gynyddu capasiti ar safleoedd gwaith, cynyddu nifer y goruchwylwyr i hwyluso mwy o brosiectau, ac archwilio opsiynau eraill gan gynnwys y fenter 'Project in a Box' a gyflwynwyd mewn nifer o ranbarthau eraill yn ystod misoedd cynnar pandemig Covid-19. Serch hynny, bydd yr ôl-groniad sylweddol yn cymryd misoedd lawer i'w ddatrys.

### A yw perthnasoedd gyda darparwyr ac asiantaethau eraill yn cael eu sefydlu, eu cynnal a'u defnyddio'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau o safon uchel i bobl ar brawf?

Roedd y berthynas gyda'r heddlu a'r gwasanaethau diogelu (plant ac oedolion) wedi hen ennill eu plwyf ar lefel strategol, ond mae ein harolwg o achosion yn awgrymu nad oedd hyn yn dod i'r amlwg yn gyson yn ymarferol. Gwelsom fod cynnwys sefydliadau eraill yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau wedi'i gydlynu'n ddigonol mewn 41 y cant o achosion yn unig. Dim ond mewn 38 y cant o achosion yr oedd cyfraniad asiantaethau eraill at reoli a lleihau'r risg o niwed wedi'i gydlynu'n ddigonol.

Yn ein hadolygiad o oruchwylio achosion, dywedodd 74 y cant o ymarferwyr yn yr achos dan adolygiad fod perthynas waith effeithiol ag asiantaethau eraill i gefnogi'r person ar brawf i ymatal. Fodd bynnag, gostyngodd hyn i 60 y cant o ran y berthynas ag asiantaethau eraill i reoli'r risg o niwed i eraill.
Nid oedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr hyn a ganfuwyd gennym yn ein harolwg o achosion.

Dywedodd dedfrydwyr y siaradwyd â hwy yn ystod yr arolygiad fod y berthynas gyda'r Gwasanaeth Prawf yn un gadarnhaol, ac atgyfnerthwyd hyn ymhellach gan arolwg y dedfrydwyr.

Yn ein harolwg, dywedodd 91 y cant o ddedfrydwyr hefyd fod llysoedd yn cael eu diweddaru naill ai'n dda iawn neu'n eithaf da gyda chanlyniadau'r gwaith a wnaed gan y Gwasanaeth Prawf. Dywedodd pob ymatebydd hefyd fod y cyngor a'r wybodaeth cyn-dedfrydu a ddarperir i'r llys yn ddadansoddol ac yn bersonol i'r unigolyn, i gefnogi penderfyniadau'r llys. Mae'n siomedig felly, o'n hadolygiad o 20 o adroddiadau cyn-dedfrydu, mewn dim ond 11 (55 y cant) oedd yr wybodaeth a'r cyngor cyn-dedfrydu a ddarparwyd i'r llys yn ddigon dadansoddol a phersonol i'r unigolyn i gefnogi penderfyniadau'r llys.

### Ailsefydlu

Ar draws pob elfen o'n hadolygiad goruchwylio achosion, gwelsom fod yr achosion hynny a oedd yn destun trwydded ar ôl rhyddhau o garchar yn gyson fwy tebygol o gael eu barnu fel rhai sy'n bodloni'r safon na rhai gorchmynion cymunedol.

Ers mis Mehefin 2021, mae'r STST wedi ymgorffori staff a arferai gael eu cyflogi ar waith Through the Gate yng Ngharchar EM Abertawe i'w tîm, er eu bod yn dal wedi'u lleoli'n bennaf yn y carchar. Fel rhai a fabwysiadodd y model hwn yn gynnar, roedd yn ymddangos ei fod yn gweithio'n eithaf da. Roedd y staff yn dweud bod y berthynas a'r ymgysylltu â charchardai ymhellach i ffwrdd yn llai datblygedig.

Yn 69 y cant o achosion, barnwyd bod y rheolwr troseddwyr cymunedol wedi sicrhau lefel gymesur o gyswllt gyda'r carcharor cyn ei ryddhau ac yn 63 y cant o'r achosion aseswyd eu bod wedi mynd i'r afael â'r anghenion ailsefydlu neu ymatal allweddol cyn rhyddhau. Mewn nifer o achosion, fodd bynnag, roedd yn amlwg, er bod anghenion y carcharor wedi'u diwallu cyn eu rhyddhau, nad oedd hyn bob amser o ganlyniad i waith y rheolwr troseddwyr cymunedol ond yn aml gwaith asiantaeth arall

yn gweithio yn y carchar (gwasanaethau camddefnyddio cyffuriau neu asiantaeth dai ayb.). Gwelsom hefyd fod y rheolwr troseddwyr cymunedol, mewn wyth o'r 13 achos lle'r oedd hynny'n angenrheidiol, wedi rhoi sylw i anghenion risg-o-niwed allweddol cyn rhyddhau, er bod hyn eto, mewn rhai achosion, yn cael ei wneud mewn gwirionedd gan asiantaethau eraill ar ran y rheolwr troseddwyr cymunedol.

Un peth sy'n arwyddocaol yn ein harolwg achosion yw bod achosion risg uchel ac uchel iawn, ar draws achosion trwyddedau ôl-ryddhau a gorchmynion cymunedol, yn cael eu rheoli'n well nag achosion risg canolig a bod achosion a oedd yn destun cefnogaeth aml-ddisgyblaeth ar ôl rhyddhau hefyd, yn gyffredinol, yn cael eu rheoli'n dda. Roedd pob un o'r chwe achos IOM yn ein carfan yn destun trwydded ar ôl rhyddhau o garchar.

| | |
|---|---|
| **1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau** | |
| Mae gwybodaeth amserol a pherthnasol ar gael a chyfleusterau priodol yn eu lle i gefnogi dull gweithredu ymatebol, personol ac o ansawdd uchel ar gyfer yr holl bobl sydd ar brawf. | Angen gwella |

Wrth wneud penderfyniad am wybodaeth a chyfleusterau, rydym yn ystyried yr atebion i'r pedwar cwestiwn canlynol:

**Ydy'r dadansoddi, y dystiolaeth a'r dysgu'n cael eu defnyddio'n effeithiol i sbarduno gwelliant?**

Er gwaethaf gwaith i ddadansoddi a dangos tystiolaeth o ddysgu, o ystyried ein canfyddiadau mewn perthynas â gwaith achos, erys cwestiynau ynghylch pa mor effeithiol yw hyn o ran gwreiddio ymarfer effeithiol a sbarduno gwelliannau.

Mae strategaeth perfformiad ac ansawdd GCPEM yn amlinellu'r strwythur rhanbarthol, gydag adroddiadau perfformiad y PDU yn darparu gwybodaeth reoli yn wythnosol. Mae cyfarfodydd gosod tasgau wythnosol yn helpu i sicrhau bod gwaith yn cael ei ddyrannu'n briodol. Er bod adroddiadau perfformiad yr Uned yn canolbwyntio'n briodol ar dargedau a data cwblhau, gyda bron pob targed naill ai'n cael ei gyrraedd neu y rhagorir arno, mae llai o ffocws ar effeithiolrwydd ymarfer yn yr adroddiadau hyn.

Mae'r grŵp dysgu ymarfer gorau wedi hen sefydlu a chanddo ffocws priodol. Mae hefyd yn cynnwys gwaith penodol yn y PDU. Mae porth ymarfer effeithiol Cymru yn cynnig cyfle pellach i ddosbarthu a rhannu gwybodaeth, yn canolbwyntio ar arfer gorau, ac yn ymateb i ymholiadau a meysydd pryder a godwyd gan staff. Mae enghreifftiau'n cynnwys gwybodaeth am stelcio, rheolaeth drwy orfodaeth, a gwaith sy'n ymateb i drawma gyda menywod. Mae llawer o'r hyn sydd ar gael o safon uchel. Yn siomedig, er bod detholiad o gyfweliadau fideo gyda staff ynghylch cofnodi data a ffeiliau'n effeithiol, daethom o hyd i nifer o achosion a adolygwyd gennym lle nad oedd gwybodaeth yn cael ei gofnodi ar Delius bob amser.

Mae calendr ansawdd sy'n benodol i'r PDU yn cynnwys amrywiaeth o sesiynau briffio â ffocws penodol iddynt a digwyddiadau staff yn ymwneud â datblygu ymarfer a pherfformiad effeithiol. Mae enghreifftiau'n cynnwys sesiynau briffio ar gamddefnyddio sylweddau a rhaglenni achrededig. Mae rhagor o ddigwyddiadau misol yn cynnwys sgyrsiau gan gynrychiolwyr o bob tîm i ledaenu'r hyn a ddysgwyd.

Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys gwaith iechyd meddwl, diogelu a threfniadau amlasiantaeth ar gyfer amddiffyn y cyhoedd ynghyd â gwaith sy'n ymwneud â gwaith thematig diweddar Arolygiaeth Prawf EM megis gwaith yn ymwneud â hil a chydraddoldeb ac IOM. Mae pwyntiau dysgu o droseddau pellach difrifol (a adolygwyd ar lefel ranbarthol) yn cael eu dosbarthu'n briodol, gyda phedwar digwyddiad yn cael eu cynnal ym mis Mehefin 2021.

### A yw'r polisïau a'r canllawiau sydd ar waith yn galluogi staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, gan ddiwallu anghenion pawb sydd ar brawf?

Mae polisïau yn cael eu llunio'n bennaf ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Mae cyfarfodydd briffio staff ar draws y PDU yn rheolaidd, yn aml ac yn ymddangos yn gynhwysfawr.

Mae'r ffaith bod Microsoft Teams ar gael wedi golygu ei bod hi'n gymharol hawdd cynnal digwyddiadau o'r fath ar gyfer yr holl staff. O ystyried y materion sy'n codi'n lleol yn swyddfa ganolog yr Uned yn Nhŷ Gorllewin Morgannwg a gyda chapasiti cyfyngedig mewn mannau eraill, mae sesiynau briffio o'r fath wedi bod yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y staff yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf a'u bod yn cadw diddordeb. Mae cyfarfodydd rheoli rheolaidd, sy'n cael eu cynnal ddwywaith yr wythnos, gyda chyfarfodydd misol pellach yn cyflawni swyddogaethau tebyg.

### A yw'r adeiladau a'r swyddfeydd yn galluogi staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd, gan ddiwallu anghenion pawb sydd ar brawf?

Mae'r trefniadau presennol o ran adeiladau ar gyfer staff yn annigonol ond y tu hwnt i reolaeth y PDU. Mae hyn yn bryder sylweddol i staff. Yn ein harolwg, dywedodd 94 y cant o ymarferwyr nad oedd yr adeiladau a'r swyddfeydd yn cefnogi cyflawni gwaith yn briodol nac ymgysylltu'n effeithiol â phobl sydd ar brawf.
Dywedodd y chwech y cant a oedd yn weddill mai dim ond 'i ryw raddau' yr oedd yn gwneud hynny.

Mae'r gwaith o reoli adeiladau eraill wedi cael ei drefnu'n dda, ond mae'n anochel ei fod yn gyfyngedig. Mae cyfanswm o chwe adeilad gwahanol yn cael eu defnyddio ar draws y PDU. Mae hyn yn galluogi cynnig hyd at 235 o sesiynau yr wythnos i bobl sydd ar brawf, heb gynnwys darparu rhaglenni achrededig na defnyddio'r Hyb Cynnwys i fenywod.
Mae gan bob adeilad ond un fynediad i gadeiriau olwyn a, lle nad yw hynny'n bosibl, mae dewisiadau eraill ar gael.

Canlyniad y sefyllfa bresennol yw, gyda chadw pellter cymdeithasol yn dal ar waith ac, mewn rhai achosion, awyru cyfyngedig, mae'r rhan fwyaf o staff wedi'u cyfyngu i fynychu swyddfeydd am un diwrnod yr wythnos yn unig. Mae hefyd yn golygu bod sesiynau gyda phobl sydd ar brawf yn amlwg wedi'u cyfyngu i slotiau 15 munud yn unig, sy'n aml yn cyfyngu'r cyswllt i 'gadw cysylltiad' yn unig. O ganlyniad, mewn llawer o achosion, mae gwaith i fynd i'r afael â materion i leihau aildroseddu ac i wella ymatal, o reidrwydd, yn cael ei wneud o bell dros y ffôn, sy'n arbennig o anodd ac, fel y gwelsom yn ein harolwg achosion, ag effeithiolrwydd cyfyngedig yn rhy aml.

Mae'r gwaith o ddychwelyd i Dŷ Gorllewin Morgannwg yn cael ei reoli'n dda a disgwylir y bydd dull gweithredu fesul cam yn digwydd rhwng diwedd mis Tachwedd 2021 a diwedd mis Ionawr 2022. Nid yw'n glir o hyd a fydd hyn yn datrys materion o ran ymgysylltu a rheoli achosion yn effeithiol.

### A yw'r systemau gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn galluogi staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, gan ddiwallu anghenion pawb sydd ar brawf?

Mae systemau TGCh yn ddigonol ar y cyfan ac yn gallu cefnogi staff yn eu gwaith o ddydd i ddydd a chynhyrchu gwybodaeth reoli ddigonol.

Mae gan bob PO a SPO liniadur a ffôn symudol y gallant gysylltu eu cyfrifiadur â nhw. Dywedodd y staff y siaradwyd â nhw fod hyn yn ddigon ar y cyfan i hwyluso eu gwaith, er bod problemau achlysurol gyda signalau symudol, yn enwedig yn yr adeilad dinesig, wedi ychwanegu at rwystredigaethau'r trefniadau gweithio presennol.

Mae gwybodaeth reoli a gynhyrchir yn cynnwys data model darparu eithriadol i gefnogi cymariaethau ar draws yr holl Unedau PDU yng Nghymru. Gellir dadansoddi hyn hefyd i roi gwybodaeth i arweinwyr y PDU am dimau a hyd yn oed unigolion.

Mae data perfformiad hefyd yn cael ei gasglu ar draws y rhanbarth ac unwaith eto mae'n cael ei ddadansoddi gan y PDU i olrhain lefelau perfformiad yn erbyn targedau. Mae hyn yn cynnwys data sy'n adlewyrchu rhai nodweddion gwarchodedig, ond nid pob un, gan gynnwys menywod a'r rheini sydd â chefndir du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig, er mwyn monitro anghymesuredd.

### Adborth gan bobl ar brawf

Mae gwaith gan y PDU i gael adborth pobl ar brawf yn dal i fod yn ei ddyddiau cynnar. Mae oedi wrth ddatblygu ymgysylltu oherwydd pandemig Covid-19 wedi bod yn rhwystredig i reolwyr, ond mae gwaith yn dechrau datblygu, gyda datganiadau o ddiddordeb yn cael eu ceisio gan bobl sydd ar drwydded neu ar orchmynion ar hyn o bryd i fod yn rhan o grŵp defnyddwyr neu gyngor.

Fe wnaeth ein hymgysylltiad ni ein hunain â phobl ar brawf greu darlun cymysg. Roedd yr ymatebwyr i'n harolygon testun a phapur yn gymharol gadarnhaol am eu profiad. Er bod y cyfraddau ymateb yn eithaf isel, dywedodd dros 90 y cant eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth a gawsant, a dywedodd nifer tebyg eu bod yn teimlo'n ddiogel wrth ddefnyddio'r gwasanaethau prawf. Roedd menywod a ymatebodd i'n harolwg ysgrifenedig ar y cyfan yn fwy cadarnhaol na dynion, gyda phawb bron yn dweud mai'r berthynas oedd ganddynt â'u swyddog prawf oedd y rhan orau o'u profiad. Fel y dywedodd un fenyw yn gryno:

> *"Mae fy swyddog yn gefnogol iawn ac yn gwrando ar fy marn ac yn fy helpu."*

Roedd y gyfradd ymateb uchaf yn yr arolwg testun yn ateb i'r cwestiwn ynghylch gallu cael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen i wneud newidiadau cadarnhaol yn eu bywydau, a dim ond dwy ran o dair oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â hynny.

Roedd y rhai a gymerodd ran yn ein grŵp ffocws gyda phobl ar brawf yn ystod yr arolygiad yn fwy negyddol. Roedd barn bod mynediad at wasanaethau yn aml yn anodd ac, at ei gilydd, bod eu profiad o amser ar brawf yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar y PO y cawsant eu dyrannu iddo. Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos rhai o'r profiadau cyferbyniol:

> *"Mae fy PO wedi bod yn ffynhonnell wych o gefnogaeth i mi a dydw i ddim yn meddwl y byddwn i yma oni bai amdani hi."*

> *“Yn ôl fy mhrofiad i, mae’n dibynnu ar bwy yw eich swyddog ac mae hynny’n gwneud gwahaniaeth mawr. Mae rhai PO yn dod i farn negyddol amdanoch chi ar sail eich trosedd ac mae hynny’n eich dilyn chi gydol eich achos.”*

Teimlai’r rhan fwyaf o’r cyfranogwyr hefyd fod cyswllt dros y ffôn yn well, oherwydd ei fod yn fwy cyfleus, ond yn gyffredinol, roedd barn bod y cyswllt ar hyn o bryd yn aml yn fyr iawn ac yn aml yn ddibwrpas. Dywedodd un dyn yn ein grŵp ffocws ei fod:

> *“wedi bod yn aros drwy’r dydd am apwyntiad tri munud, a oedd yn gwbl ddibwrpas”.*

Mae’r farn hon yn cyd-fynd â’n canfyddiad o alwadau ‘cadw cysylltiad’.

Yn ddiddorol, fodd bynnag, er bod y rhai a gymerodd ran yn ein grŵp yn eithaf negyddol, roedd yn amlwg eu bod yn awyddus i fod yn rhan o ateb ac yn awyddus i gael eu hymgynghori â nhw ar gynllunio a darparu gwasanaethau.

### Amrywiaeth a chynhwysiant

Mae PDU Abertawe Castell-nedd Port Talbot yn cymryd materion amrywiaeth o ddifrif ond mae’n cydnabod bod mwy i’w wneud o hyd, yn enwedig o ran recriwtio staff a darparu gwasanaethau arbenigol.

Yn ardal awdurdod lleol Abertawe, amcangyfrifir bod y boblogaeth heb fod yn wyn yn 6.3 y cant ac yng Nghastell-nedd Port Talbot yn 1.1 y cant. Yn PDU Abertawe Castell-nedd Port Talbot, mae cyfran y bobl ar brawf sy’n ddu, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig yn bump y cant

Mae cynllun gweithredu cydraddoldeb ac amrywiaeth yr Uned yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl nodweddion gwarchodedig ynghyd ag amcanion yn ymwneud â chefnogi datblygiad yr iaith Gymraeg. Mae ystod dda o wybodaeth ar gael i staff, gan gynnwys mynediad at sesiynau fideo a dogfennau i gefnogi cydraddoldeb. Mae nifer o gynlluniau ar y gweill i fwrw ymlaen â’r gwaith. Mae comisiynu prosiect niwroamrywiaeth ar hyn o bryd yn cydnabod y rhwystrau posibl i rai pobl ar brawf gael gafael ar wasanaethau; bydd hyn yn cyfrannu at well dealltwriaeth. Bydd y cynllun peilot presennol ar gyfer adroddiadau cyn-dedfrydu, er nad yw’n canolbwyntio’n benodol ar ddiffynyddion du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, yn cynnwys dadansoddiad o’r effaith ar y grŵp hwn o unigolion. Ar ben hynny, mae canllawiau wedi cael eu llunio ar gyfer adroddiadau sicrhau ansawdd staff, gan gynnwys y rheini ar gyfer cynllunio llysoedd a dedfrydau, ynghylch rhagfarn anfwriadol ac anghymesuredd.

## 2. Gwaith llys a goruchwylio achosion

Bu i ni archwilio 16 o achosion dedfryd gymunedol a 24 o achosion goruchwylio ar ôl rhyddhau o garchar. Bu i ni arolygu 20 o adroddiadau llys perthnasol a oedd yn deillio o'r achosion hynny. Buom yn edrych ar ansawdd asesu, cynllunio, gweithredu a darparu, ac adolygu ym mhob achos. Arolygwyd pob un o'r elfennau hyn mewn perthynas ag ymgysylltu â'r person ar brawf a mynd i'r afael â materion sy'n berthnasol i droseddu ac ymatal. Mae angen i ansawdd y gwaith a wneir fod yn uwch na throthwy penodol er mwyn iddo gael ei ystyried yn foddhaol. Buom hefyd yn arolygu'r canlyniadau a gyflawnwyd ar gyfer pobl ar brawf.

Yn gyffredinol, o'i gymharu â'r pedair elfen o asesu, cynllunio, gweithredu a darparu, ac adolygu, gwelsom mai dim ond lleiafrif a oedd yn cyflawni'r safon angenrheidiol i gael eu sgorio'n 'Ddigonol' ym mhob un o'r tri chwestiwn allweddol. Yn benodol, roedd cwestiynau yn ymwneud â rheoli risg a chadw pobl eraill yn ddiogel yn sgorio'n wael.
O ganlyniad, sgoriwyd y pedair elfen yn 'Annigonol'.

Roedd rhai gwahaniaethau nodedig i'w gwneud. Yn gyson ac ar draws 11 allan o'r 12 cwestiwn allweddol, sgoriodd achosion trwydded ôl-ryddhau'n sylweddol well na rhai achosion gorchymyn cymunedol. Gwelsom hefyd, mewn naw o'r 12 cwestiwn allweddol, fod yr achosion hynny yr aseswyd eu bod yn risg ganolig o niwed yn sgorio'n waeth na'r rhai yr aseswyd eu bod â risg isel neu uchel/uchel iawn o niwed. Roedd hyn yn wir ym mhob un o'r pedwar cwestiwn allweddol yn ymwneud â risg a rheoli niwed.

Ar draws PDU Abertawe Castell-nedd Port Talbot, aseswyd 56 y cant o'r holl achosion, a 62 y cant yn y gymuned adeg yr arolygiad, fel rhai â risg ganolig o niwed. O'r rhai yn y gymuned adeg yr arolygiad, aseswyd bod 19 y cant yn rhai oedd â risg isel o niwed a bod 18 y cant â risg uchel/uchel iawn o niwed. Nid yw'n syndod bod cyfran ychydig yn uwch o'n carfan trwydded (31 y cant) â risg uchel/uchel iawn o niwed, o'i gymharu â dim ond naw y cant o'r sampl cymunedol, gyda chyfran is (56 y cant) o achosion risg ganolig o niwed ar drwydded o'i gymharu â 71 y cant ar orchmynion cymunedol.

Nid yw'r rhesymau dros y gwahaniaethau yn y sgoriau a aseswyd gennym rhwng y rhai sydd ar orchmynion cymunedol a'r rhai sydd ar drwydded ôl-ryddhau yn gwbl glir. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, roedd gwaith cyn-rhyddhau yn cynnwys sefydliadau eraill a oedd eisoes yn gweithio, ac yn aml wedi hen sefydlu, mewn carchardai, gan gynnwys gwasanaethau cyffuriau ac asiantaethau llety. Roedd gwaith yr asiantaethau hyn yn aml yn ategu gwaith gan ymarferwyr prawf (ac yn eu disodli weithiau) ac nid oedd bob amser yn bosibl priodoli gweithgarwch i'r ymarferydd prawf. Yn aml, ond nid bob amser o bell ffordd, mae asesiad da yn cynyddu'r tebygolrwydd o waith gwell yn cael ei gyflawni ar achos yn ddiweddarach.

Yn ychwanegol at hyn, roedd pump o'r saith achos trefniadau amddiffyn y cyhoedd aml-asiantaeth ar drwydded, ac roedd pob un o'r chwech hynny a oedd yn destun rheoli troseddwyr integredig (IOM) hefyd yn achosion ôl-ryddhau. Roedd arwyddion cryf, lle roedd gwaith aml-asiantaeth ar waith, fod achosion yn cael eu rheoli'n well yn gyffredinol, er bod rhai eithriadau.

| **Goruchwylio achosion** |
|---|
| **Cryfderau:** |
| • Yn gyffredinol, mae achosion risg uchel ac uchel iawn o niwed yn cael eu rheoli'n eithaf da, er y dylid nodi bod nifer yr achosion yn y sampl yn gymharol isel (saith).<br>• Yn gyson, mae'r achosion hynny ar drwydded ôl-ryddhau yn cael eu rheoli'n well na'r rhai ar orchmynion cymunedol. |

| **Meysydd i'w gwella:** |
|---|
| • Mewn gormod o achosion, roedd y cyswllt yn annigonol a hyd yn oed pan oedd ar lefel briodol, yn rhy aml roedd y ffocws yn amwys neu'n aneglur.<br>• Mewn gormod o achosion, derbyniwyd gair y person ar brawf heb gadarnhad.<br>• Roedd ymarferwyr prawf yn aml yn canolbwyntio eu sylw ar ffactorau nad oeddent y rhai pwysicaf o ran lleihau aildroseddu neu gynyddu ymatal.<br>• Nid oedd ymarferwyr prawf yn canolbwyntio'n ddigonol ar amddiffyn dioddefwyr troseddau gwirioneddol a phosibl ac nid oeddent bob amser yn cydnabod newidiadau o ran ffactorau risg |

| **2.1 Gwaith llys** | |
|---|---|
| Mae'r wybodaeth a'r cyngor cyn-dedfrydu a ddarperir i'r llys yn cefnogi ei broses o wneud penderfyniadau. | Angen gwella |

Mae ein sgôr ar gyfer gwaith llys yn seiliedig ar ganran yr achosion a arolygwyd gennym a gafodd eu barnu'n foddhaol yn erbyn y cwestiwn allweddol:

| Cwestiwn allweddol | Sgôr |
|---|---|
| **A yw'r cyngor a'r wybodaeth cyn-dedfrydu a ddarperir i'r llys yn ddigon dadansoddol a phersonol i'r unigolyn, i gefnogi penderfyniadau'r llys?**[11] | 55% |

[11] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr ar gyfer y cwestiwn allweddol, sy'n cael ei roi mewn band sgorio.

Mae'r PDU yn cael ei hystyried yn un sydd 'Angen gwella' ar gyfer gwaith llys, gyda dim ond 55 y cant o'r achosion a arolygwyd yn cael eu sgorio'n foddhaol yn erbyn ein safon ansawdd.

Gwelsom, ymysg ein sampl achosion, rai adroddiadau llys wedi'u llunio a'u hysgrifennu'n dda iawn. Yn y rhan fwyaf o'r achosion, roedd unigolion yn ymwneud yn briodol â'r broses o lunio adroddiadau, ac mewn mwyafrif helaeth o achosion, ystyriwyd amrywiaeth ac amgylchiadau personol unigolion yn briodol.

Fodd bynnag, siomedig oedd y ffaith mai mewn rhy ychydig o achosion yr oedd yr wybodaeth a'r cyngor yn defnyddio'r ystod lawn o wybodaeth a oedd ar gael; mewn llawer o achosion nid oedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am ddiogelu plant a/neu gam-drin domestig. Yn yr enghreifftiau gorau, cynhaliwyd dadansoddiad cynhwysfawr o wybodaeth a oedd wedyn yn cael ei roi mewn cyd-destun priodol, ac arweiniodd y dadansoddiad a'r argymhelliad i'r llys yn rhesymegol ac yn ddefnyddiol o hyn, fel yn yr enghraifft ganlynol:

**Enghraifft o ymarfer da**

Wrth baratoi ar gyfer yr adroddiad, cynhaliwyd archwiliadau cam-drin domestig a diogelu plant. Bu'r awdur yn ymwneud â William yn y broses, gan ystyried gwybodaeth berthnasol am amrywiaeth fel iechyd corfforol (niwmothoracs ac anaf i'r cefn), materion iechyd meddwl (anhwylder gorfodaeth obsesiynol, pryder, iselder a meddwl am gyflawni hunanladdiad yn flaenorol) a'i brofiad o drawma fel dioddefwr cam-drin corfforol ac emosiynol ynghyd â gweld, fel plentyn, camdriniaeth a gyflawnwyd yn erbyn ei fam. Cafodd y ffactorau hyn, ochr yn ochr â ffactorau y nodwyd eu bod yn cyfrannu at y risg o aildroseddu a'r risg o niwed, eu cynnwys i helpu gyda'r dedfrydu. Roedd hyn yn sicrhau bod yr argymhelliad yn un personoledig ac yn darparu dedfryd i leihau'r risgiau i ddioddefwyr hysbys neu y gellid eu hadnabod.

Nid oedd bob amser yn glir pam nad oedd archwiliadau cam-drin domestig neu amddiffyn plant wedi cael eu cynnal, yn enwedig lle'r oedd gwybodaeth, er enghraifft mewn adolygiadau blaenorol y System Asesu Troseddwyr (OASys), yn nodi pryderon cynharach. Mewn gormod o achosion, hyd yn oed lle'r oedd gwybodaeth briodol wedi'i cheisio a'i hystyried, nid oedd lefel y dadansoddiad yn ddigonol.

Mae'r canlynol yn dangos y pwynt:

**Enghraifft o ymarfer gwael**

Wrth baratoi ar gyfer yr adroddiad, cynhaliwyd archwiliadau cam-drin domestig a diogelu plant. Ni nodwyd unrhyw anghenion penodol o ran amrywiaeth ond ystyriodd yr awdur y ffaith bod Jon yn gwadu'r prif drosedd a'i farn fod y System Cyfiawnder Troseddol yn credu menywod dros ddynion mewn achosion o gam-drin domestig. Ni wnaeth yr awdur nodi ffactorau penodol a oedd yn cyfrannu at y drosedd nac archwilio rhagor o wybodaeth a oedd yn rhoi manylion lleihau ei ymddygiad ei hun, anawsterau o ran rheoli'r berthynas a oedd gan y person ar brawf â'i gyn-bartner, datrys problemau a meddwl canlyniadol gwael, a rheolaeth emosiynol wael y gellid bod wedi tynnu sylw'r llys atynt drwy archwilio'r manylion a ddarparwyd yn nogfennau Gwasanaeth Erlyn y Goron.

## 2.2. Asesu

| | |
|---|---|
| Mae'r asesiad yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y person sydd ar brawf. | Annigonol |

Mae ein sgôr[12] ar gyfer asesu yn seiliedig ar ganran yr achosion a arolygwyd gennym a gafodd eu barnu'n foddhaol yn erbyn y tri chwestiwn allweddol:

| Cwestiwn allweddol | Sgoriau | | |
|---|---|---|---|
| | Dedfrydau cymunedol | Dedfrydau ôl-ryddhau | Pob achos |
| **A yw'r asesiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar gynnwys y person sydd ar brawf?** | 46% | 81% | 60% |
| **A yw'r asesiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar y ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu ac ymatal rhag troseddu?** | 42% | 88% | 60% |
| **A yw'r asesiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?** | 21% | 56% | **35%** |

Mae'r Uned PDU yn cael ei hystyried yn 'Annigonol' ar gyfer asesu, gan mai'r sgôr isaf ar gyfer y cwestiynau allweddol oedd 35 y cant.

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd asesiad effeithiol; yn ddieithriad mae'n sail i waith dilynol ac yn pennu ffocws a natur yr ymgysylltu. Felly, mae'n anochel bod y sgoriau yn yr adran hon yn gyrru methiannau yn erbyn ein safonau eraill.

Mae gwahaniaeth amlwg yn ansawdd yr asesiadau a wneir gyda'r unigolion hynny sydd ar orchymyn cymunedol o'i gymharu â'r rhai sydd ar drwydded ôl-ryddhau, gyda llawer mwy o'r olaf yn cael eu hystyried yn ddigonol. Er bod eithriadau, yn gyffredinol mae'r achosion hynny lle ceir cydweithio a/neu gyfrifoldeb aml-asiantaeth yn tueddu i elwa o asesiadau o well ansawdd. Byddai hyn yn cynnwys achosion IOM a'r rhan fwyaf o achosion benywaidd. Mae'n amlwg hefyd bod y rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa yn elwa'n gyffredinol o gyfranogiad aml-asiantaeth/adran cyn-rhyddhau, gan ganolbwyntio ar dai, camddefnyddio sylweddau, iechyd a 'hyfforddiant cyflogaeth ac addysg' ymysg pethau eraill. Mae asesu cymhelliant a pharodrwydd i newid, a dadansoddi amgylchiadau personol unigol, ill dau yn sail i'r ffocws cyffredinol ar ymgysylltu a'u bod yn llawer gwell yn yr achosion hynny ar drwydded ôl-ryddhau.

[12] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl.

Yn yr un modd, mae llawer mwy o ffocws ar ganfod a dadansoddi ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu a defnyddio mwy ar y ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael yn yr achosion hynny ar drwydded ôl-ryddhau unwaith eto yn arwain at werthusiad bod yr achosion hyn yn canolbwyntio'n fwy digonol ar y ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu ac ymatal rhag troseddu.

Yr hyn sy'n peri'r pryder mwyaf yw'r ffocws annigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel. Yn rhy ychydig o'r achosion hynny ar drwydded ôl-ryddhau y rhoddir digon o sylw i'r risgiau y maent yn eu peri, ond yn fwy pryderus y mae'r ffaith bod hyn yn gostwng i ddim ond un o bob pump o'r rhai sydd ar orchymyn cymunedol. Yn yr un modd, mewn dim ond 27 y cant o'r achosion hynny yr aseswyd eu bod â risg ganolig yr oedd yr asesiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel.

Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos y gwrthgyferbyniadau a welsom:

**Enghraifft o ymarfer da**

Mae gan Marie hanes hir a chymhleth o droseddu a hefyd o fod yn ddioddefwr troseddu. Mae'r asesiad o'i hanes personol yn rhoi darlun clir o'r holl ffactorau yn ei bywyd sydd wedi cyfrannu at ei throseddu; pa mor gyffredin ydynt, y rhai y mae angen rhoi sylw iddynt a'r rheini y mae angen eu monitro i gefnogi ymatal rhag troseddu. Mae'r asesiad yn seiliedig ar wybodaeth fanwl yr ymarferydd prawf am Marie, gwybodaeth a gafodd gan ei gweithiwr allweddol yn y carchar a'r wybodaeth a gafwyd gan y gwahanol asiantaethau partner a oedd yn gysylltiedig â hi yn y gymuned cyn y ddedfryd.

Roedd archwiliadau a gwblhawyd ar gyfer rhyddhau Marie ar gyrffyw cyfyngu i'r cartref yn cynnwys ymholiadau cam-drin domestig.

Mae'r asesiad yn archwilio'r holl ffactorau hyn ac yn eu hystyried mewn perthynas â'r risg y mae Marie yn ei hachosi i eraill a hefyd o ran ei natur agored i niwed hi ei hun. Mae'r risg o niwed difrifol i blant a natur y risg yn cael ei nodi ac yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl yn ddiogel.

**Enghraifft o ymarfer gwael**

Mae'r adroddiad cyn-dedfrydu yn nodi bod Jack yn teimlo bod ganddo ' bersonoliaeth ddeublyg' a bod ganddo anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd a'i fod yn ei chael yn anodd ymdopi â'i iechyd meddwl. Nid yw hyn yn cael ei gydnabod yn asesiad yr ymarferydd sy'n nodi nad oes gan Jack unrhyw broblemau yn y maes hwn. Nid oes tystiolaeth o archwilio plentyndod Jack nac unrhyw feysydd ar wahân i'r berthynas â'i bartner i asesu effaith digwyddiadau bywyd ar ei ymddygiad.

Mae sgiliau meddwl Jack yn cael eu nodi fel rhai sy'n gysylltiedig ag aildroseddu ac maen nhw'n cael eu harchwilio'n ddigonol i ganfod ymyriadau priodol, ond mae diffyg ymchwil i iechyd meddwl Jack a sut mae hyn yn effeithio ar ei ymddygiad a'i ymatal rhag troseddu. Nodir mewn cofnodion bod troseddu blaenorol yn gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol, ond nid yw hyn yn cael ei nodi fel ffactor perthnasol yn yr asesiad, a nodir bod Jack yn dweud nad oes ganddo unrhyw broblemau yn y maes hwn. Mae'n ymddangos bod yr ymarferydd wedi dibynnu ar adroddiad Jack ei hun yn hytrach na dadansoddi'r prif drosedd a'i ymddygiad blaenorol. Mae cam-drin domestig wedi bod yn broblem ym mherthnasoedd blaenorol a chyfredol Jack, gydag adolygiadau OASys cynharach yn awgrymu

achosion galw-allan gyda'i bartner presennol, ond ni chynhaliwyd unrhyw archwiliadau cam-drin yn y cartref ynghylch ei berthynas bresennol a nodir nad oes unrhyw broblemau yn ei berthnasoedd. Mae hyn wedi golygu nad yw'r ymarferydd yn nodi unrhyw risg i bartneriaid ac asesiad anghywir o'r risg gyffredinol. Hefyd, er bod gan Jack hanes sylweddol o ddefnyddio arfau yn ystod ei droseddau, ni roddir cyfrif am hyn yn y crynodeb risg.

### 2.3. Cynllunio

| Mae cynllunio yn seiliedig ar wybodaeth, yn holistaidd ac wedi'i bersonoli, ac mae'n cynnwys yn weithredol y person sydd ar brawf. | Annigonol |
|---|---|

Mae ein sgôr[13] ar gyfer cynllunio yn seiliedig ar ganran yr achosion a arolygwyd gennym a gafodd eu barnu'n foddhaol yn erbyn y tri chwestiwn allweddol:

| Cwestiwn allweddol | Sgoriau | | |
|---|---|---|---|
| | Dedfrydau cymunedol | Dedfrydau ôl-ryddhau | Pob achos |
| **A yw'r cynllunio yn canolbwyntio'n ddigonol ar ymgysylltu â'r person sydd ar brawf?** | 33% | 63% | **45%** |
| **A yw'r cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar leihau aildroseddu a chefnogi ymatal?** | 38% | 56% | **45%** |
| **A yw'r asesiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?** | 30% | 69% | 46% |

Mae'r Uned yn cael ei hystyried yn 'Annigonol' ar gyfer cynllunio, gyda phob un o'r tair sgôr ar gyfer y cwestiynau allweddol yn dod o fewn y band sgôr ar gyfer 'Annigonol'.

Nid yw'n syndod bod data ynghylch cynllunio yn awgrymu patrwm a materion tebyg iawn i'r hyn sydd yn yr asesiad, gyda nifer yr achosion yn dangos cynllunio digonol yn gyson uwch yn y sampl trwyddedau ôl-ryddhau nag yn achos y garfan gorchymyn cymunedol. Roedd hyn yn wir ym mhob un o'r tri chwestiwn allweddol.

Yn yr achosion gwell, ar draws achosion trwyddedau ôl-ryddhau a gorchmynion cymunedol, mae'r unigolyn yn ymgysylltu â'i gynllun i gynyddu'r tebygolrwydd o gydymffurfio.
Mae'r cynllun yn adlewyrchu'r prif feysydd pryder ac yn nodi; pa waith y mae angen ei wneud a pham, pwy fydd yn ymgymryd ag ef ac erbyn pryd, a beth fydd

[13] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, ac a nodir mewn print trwm yn y tabl.

manteision disgwyliedig y gwaith hwn ynghyd â sut y caiff ei fesur. Mae cynlluniau wrth gefn priodol wedi'u cynnwys hefyd os bydd diffygion yn y gwaith sydd wedi'i gynllunio.

Ar y llaw arall, gwelsom nifer o enghreifftiau lle nad oedd fawr ddim ymgysylltu, os o gwbl, â'r person ar brawf, lle mewn rhai achosion, cyfeirir at wasanaeth nad oes gan y person ar brawf fawr o gymhelliant i'w fynychu ac nad oes fawr o arwydd fod unrhyw gynlluniau wrth gefn. Nodweddir achosion gwannach hefyd gan ddiffyg eglurder o ran pa waith y mae angen ei wneud, pam neu gan bwy. Gwelsom hefyd enghreifftiau lle na roddwyd llawer o ystyriaeth i effaith debygol ymddygiad problemus, megis camddefnyddio alcohol neu sylweddau, ar gydymffurfio â'r gorchymyn.

Mewn rhai achosion, roedd y cynlluniau a welsom yn afrealistig, gan osod targedau nad oedd modd eu cyflawni. Mewn un achos, er enghraifft, roedd gan fenyw â hanes hir o gydymffurfio gwael, camddefnyddio alcohol a chysylltu â chyfoedion a oedd o blaid troseddu, dargedau wedi'u gosod i: "barhau i ymatal rhag alcohol" ac i: "peidio â chysylltu â chyfoedion sydd o blaid troseddu mwyach".

Mewn perthynas â chynllunio sy'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel, eto mewn achosion a reolir yn well, gwelsom flaenoriaeth glir i faterion allweddol, amcanion clir a, lle bo angen a/neu lle bo'n briodol, gynllunio ar y cyd ystyrlon gydag asiantaethau eraill megis yr heddlu mewn achosion IOM, asiantaethau camddefnyddio sylweddau neu wasanaethau plant.

Mewn gormod o'r achosion y buom yn edrych arnynt, nid oedd yr holl ffactorau allweddol cysylltiedig â throseddu yn cael eu hystyried yn ddigonol yn y gwaith cynllunio, yn enwedig y rhai yn ymwneud â diogelwch pobl eraill.
Mewn rhai achosion, ystyriwyd rhai ffactorau ond nid y rhai mwyaf arwyddocaol. Roedd diffyg ymgysylltu, a rhannu gwybodaeth, gyda'r gwasanaethau plant yn rhy aml ac yn aml nid oedd unrhyw gynlluniau wrth gefn.

**Enghraifft o ymarfer gwael**

Mae'r asesiad yn nodi ffactorau perthnasol yn ymwneud â niwed ac yn amlinellu ymyriadau i fynd i'r afael â pherthnasoedd. Er bod cyfeiriad at gamddefnyddio cyffuriau yn y cynllun dedfrydu, mae hyn o ran monitro ac nid oes unrhyw amcanion i archwilio camddefnydd Jacob o gyffuriau sydd, er yn llai aml nag o'r blaen, yn cael ei nodi fel mater parhaus. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried ei fod wedi dweud ei fod wedi byw gyda'i bartner a'i thri phlentyn, a allai fod yn dystion i unrhyw gamddefnydd o gyffuriau. Ni roddir ystyriaeth i gyfeirio Jacob at asiantaeth camddefnyddio cyffuriau cymunedol.

Mae Jacob yn cysylltu ei iechyd meddwl â'i ymddygiad troseddol ac mae'r ymarferydd
hefyd yn cysylltu rheolaeth emosiynol, ond nid yw hyn yn cael ei ystyried wrth gynllunio ymyriadau nac yn cael ei adlewyrchu mewn amcanion. Nid oes unrhyw dystiolaeth o archwiliad yn cael ei gynnal gyda'r gwasanaethau plant mewn perthynas â phlant ei bartner na bod atgyfeiriad wedi cael ei gyflwyno mewn perthynas â'r risgiau posibl sy'n wynebu partner Jacob a'i phlant. Mae'n werth nodi bod yr ymarferydd yn dweud bod archwiliadau wedi'u gwneud ond nad oes tystiolaeth o'r rhain. Nid oedd yr ymarferydd yn teimlo bod cyfiawnhad dros gyfeirio at wasanaethau plant oherwydd na fu unrhyw alwadau allan gyda'r partner presennol, er gwaethaf hanes Jacob o gam-drin domestig, sy'n peri pryder. Cysylltodd yr ymarferydd â'r heddlu ynghylch datgeliad Deddf Claire; fodd

bynnag, nid yw'r canlyniad wedi'i gofnodi. Nododd yr ymarferydd nad oedd partner Jacob eisiau datgeliad. Nid yw'r cynllun wrth gefn yn nodi ymatebion o ran unrhyw gyswllt â'i gyn-bartner, torri gorchymyn atal na ddirywiad yn ei iechyd meddwl, sy'n feysydd allweddol sy'n gysylltiedig â'i risg.

Mae'n werth nodi bod yr achosion hynny lle mae unigolion yn cael eu hasesu naill ai fel risg uchel neu isel o niwed difrifol yn llawer mwy tebygol o gael eu barnu fel rhai digonol mewn perthynas â chynllunio gan ganolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill
yn ddiogel na'r rhai sy'n cael eu hasesu fel risg ganolig. Dim ond wyth o bob 25 achos risg ganolig (32 y cant) a oedd yn bodloni'r maen prawf hwn.

## 2.4. Gweithredu a darparu

| | |
|---|---|
| Mae gwasanaethau cydlynol, personol ac o ansawdd uchel a gyda ffocws da yn cael eu darparu, gan ymgysylltu â'r person sydd ar brawf. | Annigonol |

Mae ein sgôr[14] ar gyfer gweithredu a darparu yn seiliedig ar ganran yr achosion a arolygwyd gennym a gafodd eu barnu'n foddhaol yn erbyn tri chwestiwn allweddol:

| Cwestiwn allweddol | Sgoriau | | |
|---|---|---|---|
| | Dedfrydau cymunedol | Dedfrydau ôl-ryddhau | Pob achos |
| **A yw'r ddedfryd neu'r cyfnod ar ôl carcharu yn cael ei weithredu'n effeithiol gan ganolbwyntio ar ymgysylltu â'r person sydd ar brawf?** | 48% | 88% | 64% |
| **A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi ymatal yn effeithiol?** | 35% | 56% | **44%** |
| **A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?** | 38% | 63% | 48% |

Mae Uned PDU Abertawe Castell-nedd Port Talbot yn cael ei hystyried yn 'Annigonol' ar gyfer gweithredu a darparu, gan mai'r sgôr isaf ar gyfer y cwestiynau allweddol oedd 44 y cant ar gyfer gweithredu a darparu gwasanaethau sy'n cefnogi ymatal y person ar brawf yn effeithiol, a dim ond 48 y cant ar gyfer gweithredu a darparu gwasanaethau sy'n cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol, ac mae'r ddau yn disgyn o fewn y band sgôr ar gyfer 'Annigonol'.

Er bod mwyafrif helaeth (81 y cant) o achosion y rhai ar drwydded ôl-ryddhau wedi dechrau ar amser, disgwylir hyn o gofio bod disgwyl i bobl ar drwydded, wrth gael eu rhyddhau, roi gwybod i'w hymarferydd prawf cymunedol. Serch hynny, mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r rhai ar orchmynion cymunedol lle barnwyd mai dim ond hanner oedd wedi dechrau ar amser.

Mewn rhai achosion lle ceir trwydded ôl-ryddhau, er mai ychydig iawn o gyswllt, os o gwbl, a gafwyd gan y rheolwr troseddwyr cymunedol (ymarferydd prawf), yr ymgymerwyd â gwaith cyn rhyddhau gan y carchar i ddiwallu anghenion y rhai a

[14] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, ac a nodir mewn print trwm yn y tabl.

oedd i fod i gael eu rhyddhau ar drwydded. Mewn rhai ffyrdd, roedd hyn yn cuddio'r diffyg gweithgarwch gan ymarferwyr. Mae'r canlynol yn enghraifft:

| Enghraifft o ymarfer da |
|---|
| Nid oedd unrhyw gyswllt amlwg gan y rheolwr troseddwyr cyn rhyddhau, ond roedd rhywfaint o dystiolaeth bod gwaith arall yn cael ei wneud cyn rhyddhau yn y carchar gan ganolbwyntio ar yr angen am lety. Cafodd Mark ei ryddhau i lety mechnïaeth a gwasanaethau cefnogi. Ar ôl rhyddhau, roedd yr achos yn gwella'n sylweddol pan ddyrannwyd PSO newydd, a oedd yn canolbwyntio'n wirioneddol ar ddeall y rhwystrau i ymgysylltu a rhoi sylw effeithiol iddynt; yn bennaf anghenion llety a chamddefnyddio sylweddau parhaus Mark, a gafodd eu nodi'n gywir fel y flaenoriaeth iddo. |

Mae'n galonogol, yn gyffredinol, yn y mwyafrif helaeth o'r achosion a adolygwyd gennym, ein bod wedi canfod y gwnaed ymdrechion digonol i alluogi pobl ar brawf i gwblhau eu trwydded neu eu gorchymyn. Er mai mewn dim ond 45 y cant o achosion y nodwyd ac yr aethpwyd i'r afael â'r risg o beidio â chydymffurfio, unwaith y bydd achosion lle nad oedd angen gwneud hynny'n cael eu dileu, mae hyn yn codi i 18 o'r 27 achos. Yn yr un modd, unwaith y caiff yr achosion hynny lle nad oedd angen gweithredu ar dor-amod neu alw yn ôl yn cael eu dileu, cafodd 17 o'r 22 achos lle'r oedd eu hangen eu rheoli'n briodol. Yn galonogol, mae hyn yn cyfateb i bob un o'r achosion hynny ar drwydded ôl-ryddhau.

Yn gyffredinol, dim ond 43 y cant o'r achosion y barnwyd eu bod wedi cael digon o gyswllt i gefnogi ymatal a lleihau'r risg o aildroseddu. Yr hyn sy'n peri mwy o bryder yw mai dim ond 40 y cant o'r achosion y barnwyd eu bod wedi cael digon o gyswllt i reoli risg. Mewn llawer o achosion, roedd y cyswllt wyneb yn wyneb yn annigonol ac roedd y cyswllt ffôn o bell yn aneffeithiol.

Y tri maes gwaith a nodwyd amlaf i fynd i'r afael â'r risg o niwed oedd 'meddwl ac ymddygiad' mewn 33 o achosion, 'teulu a pherthnasoedd' mewn 23 o achosion a 'chamddefnyddio cyffuriau' mewn 18 achos. Fodd bynnag, aseswyd bod digon o waith i fynd i'r afael â'r materion hyn wedi digwydd mewn dim ond pedwar o'r achosion meddwl ac ymddygiad, dau yn ymwneud â theulu a pherthnasoedd, a chwech yn galw am gymorth gyda chyffuriau. Fodd bynnag, mae'n werth nodi, o'r 11 achos y nodwyd bod angen cefnogaeth llety arnynt, y barnwyd bod naw ohonynt wedi cael eu rheoli'n ddigonol. Roedd hyn hyd yn oed yn uwch mewn perthynas ag unigolion a oedd yn cael eu rhyddhau o garchar.

Wrth gwrs, rhaid ystyried cyfyngiadau o'r fath yng nghyd-destun pandemig Covid-19, wedi'i waethygu gan y ffaith fod Tŷ Gorllewin Morgannwg wedi cau ar hyn o bryd. Ond dylai cyfyngiadau o'r fath arwain at ganolbwyntio llawer mwy ar agweddau pwysicaf achos ac maent yn pwysleisio'r angen i weithio gydag asiantaethau partner fel isafswm, yn enwedig o ran rheoli risg. Yn rhy aml, nid felly y bu.

| Enghraifft o ymarfer gwael |
|---|
| Er bod cyswllt yn digwydd yn aml drwy nifer of ffyrdd, gan gynnwys ymweliadau rheolaidd â'r cartref, nid yw'r cyswllt yn arbennig o ystyrlon ac mae'n ymddangos fel cadw cysylltiad sylfaenol. Yn ystod cyfweliad, roedd yr ymarferydd prawf yn ei chael yn anodd esbonio'r hyn a olygir wrth ailadrodd "ymgysylltu'n dda" yn gyson mewn cofnodion.  Ni thalwyd unrhyw sylw i faterion yn ymwneud â lles emosiynol |

na iechyd meddwl, a derbyniwyd hunan-adroddiad y person ar brawf am gydymffurfio â'i bresgripsiwn methadon heb unrhyw ddilysiad gan Dyfodol (asiantaeth camddefnyddio cyffuriau). Pe bai gwiriadau wedi cael eu cynnal, byddai wedi cael ei nodi ei fod yn llithro'n ôl.

Fodd bynnag, mae'r achos canlynol yn dangos pa mor effeithiol y gall ffocws clir ar waith aml-asiantaeth a chyswllt fod:

**Enghraifft o ymarfer da**

Mae achos Claire yn cynnwys tystiolaeth o ymwneud â chymorth llety, Dyfodol (asiantaeth camddefnyddio cyffuriau), HYB Cynnwys (cefnogaeth gwasanaethau menywod), mynediad at adnoddau iechyd rhywiol yn ôl yr angen drwy Dyfodol, a mynediad at wasanaethau cyngor annibynnol ar drais domestig cyn rhyddhau ei chyn-bartner o'r carchar. Trefnir ymyriadau priodol gan asiantaethau eraill i fynd i'r afael â meysydd allweddol sy'n effeithio ar ymatal, gan gynnwys llety, camddefnyddio cyffuriau a ffordd o fyw gymdeithasol-fuddiol. Ceir cyswllt aml iawn â sawl asiantaeth i gydlynu'r gefnogaeth ar ôl i Claire adael yr ardal a mynd i loches oherwydd cam-drin domestig gan ei chyn-bartner. Mae hyn yn cynnwys cymorth mewn lloches, Cymorth i Fenywod, a Dyfodol, yn enwedig i reoli unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg. Ar ben hynny, mae cysylltiad â'r gwasanaeth prawf i weld Claire yn bersonol tra mae hi allan o'r ardal a gyda llety i sicrhau bod cefnogaeth briodol ar gael i ganiatáu i Claire ddychwelyd i Dde Cymru pan fo hynny'n briodol.

### 2.5. Adolygu

| Mae'r gwaith o adolygu cynnydd yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac wedi'i bersonoli, ac mae'n cynnwys yn weithredol y person sydd ar brawf. | Annigonol |
|---|---|

Mae ein sgôr[15] ar gyfer adolygu yn seiliedig ar ganran yr achosion a arolygwyd gennym a gafodd eu barnu'n foddhaol yn erbyn tri chwestiwn allweddol:

| Cwestiwn allweddol | Sgoriau | | |
|---|---|---|---|
| | Dedfrydau cymunedol | Dedfrydau ôl-ryddhau | Pob achos |
| **A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi cydymffurfiad ac ymgysylltiad y person sydd ar brawf?** | 46% | 75% | 58% |

[15] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **A yw'r gwaith adolygu yn canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymatal?** | 58% | 63% | 60% |
| **A yw'r gwaith adolygu yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?** | 35% | 63% | **46%** |

Roedd llai na hanner yr achosion a arolygwyd gennym yn foddhaol o ran a oedd adolygiadau achos yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel. Felly, rydym wedi nodi bod ansawdd yr adolygu yn gyffredinol yn 'Annigonol'.

Er bod y patrwm o fwy o achosion trwydded ôl-ryddhau na gorchmynion cymunedol yn cael eu hasesu'n ddigonol yn parhau mewn perthynas ag adolygu, mae'r gwahaniaethau mewn nifer o agweddau yn llai amlwg. Fodd bynnag, o ran rheoli risg o niwed, mae'r gwahaniaeth yr un mor amlwg ag yn nhri dimensiwn blaenorol gwaith achos. Mae patrwm yr achosion risg ganolig yn gyson yn llai tebygol o fodloni'r trothwy digonolrwydd yn parhau ac mae'n arbennig o amlwg o ran cadw pobl eraill yn ddiogel, lle mai dim ond naw o'r 25 achos (36 y cant) a oedd yn bodloni'r trothwy.

Disgwylir y bydd achos yn cael ei adolygu yn dilyn digwyddiad arwyddocaol neu ar ôl chwe mis. Gallai hyn gynnwys ymarferwr cyfrifol newydd, neu gallai gynnwys newid mewn amgylchiadau o ran y person sydd ar brawf, gan gynnwys trosedd bellach, llithro'n ôl i gamddefnyddio alcohol/cyffuriau, gwybodaeth newydd yn dod i'r amlwg neu berthynas bersonol newydd yn cael ei sefydlu, ynghyd â llawer o ddigwyddiadau eraill.

Mewn nifer o'r achosion a adolygwyd gennym, gwelsom fod adolygiadau priodol wedi'u cynnal, weithiau oherwydd newid mewn ymarferwr ond fel arfer oherwydd newidiadau mewn amgylchiadau. Yn yr achosion gorau, mae'r person sydd ar brawf wedi'i gynnwys yn yr adolygiad ei hun ynghyd ag asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r gwaith, lle bo hynny'n briodol. O hyn, gellir cytuno ar gynllun clir ar gyfer y cyfnod goruchwylio nesaf.
Yn yr enghreifftiau gwaelach, roedd y gwrthwyneb yn wir.

Mae'n werth nodi, yn rhai o'r achosion a adolygwyd gennym, er nad oedd fawr ddim ar ffeil i ddangos bod adolygiad wedi digwydd, ei bod yn amlwg o siarad â'r ymarferydd ei fod nid yn unig yn gwybod am yr achos dan sylw ond wedi cynnal adolygiadau ac wedi llunio cynlluniau ystyrlon ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Er bod yr achosion hyn wedi'u nodi fel rhai digonol, roedd yn batrwm ar draws ein hadolygiadau achos nad oedd y cofnodi bob amser yn foddhaol.

Mewn gormod o'r achosion a welsom, oherwydd mai ychydig iawn o weithgarwch ystyrlon a gafwyd, hyd yn oed pan oedd y cyswllt wedi bod yn ddigon aml, nid oedd llawer i'w adolygu mewn gwirionedd. Fodd bynnag, ein prif bryder, unwaith eto, oedd adolygu mewn perthynas â chadw pobl eraill yn ddiogel. Mewn rhai achosion, eto, gwelsom y bu gorddibyniaeth ar yr hyn a ddywedodd y person ar brawf wrth yr ymarferydd heb wiriadau digonol i'w ddilysu hynny. Ar draws gorchmynion cymunedol ac achosion trwyddedau ôl-ryddhau, dim ond mewn lleiafrif o achosion yr oedd ffocws digonol ar sicrhau bod adolygu'n cael ei oleuo gan fewnbwn angenrheidiol gan asiantaethau eraill yn ymwneud â rheoli'r risg o niwed. Yn anffodus, nid oedd y canlynol yn anarferol:

| Enghraifft o ymarfer gwael |
| --- |
| Does dim tystiolaeth bod Richard wedi bod yn rhan o'r gwaith o adolygu'r risg o niwed yr oedd yn ei achosi. Cafodd yr achos ei leihau o risg ganolig i risg isel ar y sail y ffaith bod y gwaith di-dâl wedi'i gwblhau ond heb unrhyw wiriadau gydag uned cam-drin domestig yr heddlu.<br>i wirio a oedd unrhyw bryderon pellach ynghylch torri'r gorchymyn peidio â molestu. Roedd yr ymarferydd prawf yn gorddibynnu ar yr hyn yr oedd y person ar brawf yn ei ddweud wrthynt a diffyg dilysu. |

| **2.6. Canlyniadau** | Heb ei sgorio |
| --- | --- |
| Mae'r canlyniadau cynnar yn gadarnhaol, gan ddangos cynnydd rhesymol i'r person sydd ar brawf. | Heb ei sgorio |

| Canlyniadau | Dedfrydau cymunedol | Dedfrydau ôl-ryddhau | Pob achos |
| --- | --- | --- | --- |
| **A yw'r canlyniadau cynnar yn dangos bod cynnydd rhesymol wedi'i wneud, yn unol ag anghenion personol y sawl sydd ar brawf?** | 33% | 31% | 33% |

Fel y nodwyd yn gynharach, mewn gormod o'r achosion a adolygwyd gennym, gwelsom nad oedd digon o gyswllt wedi bod gyda'r person ar brawf neu, lle'r oedd y cyswllt wedi bod yn ddigon aml, nad oedd digon o ffocws iddo. Mae hyn, yn anochel, yn effeithio ar ganlyniadau.

Mewn llawer o'r achosion lle'r oedd rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud, roedd hyn oherwydd cynnwys asiantaethau allanol, megis y rhai sy'n darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, neu lle darparwyd cefnogaeth ymarferol, megis gwelliannau o ran llety. Yn y rhan fwyaf o achosion nid oedd unrhyw ymyriadau wedi cael eu darparu neu roedd y ffocws allweddol wedi bod ar ddatblygu cymhelliant oherwydd diffyg cydymffurfio neu'r bygythiad o beidio cydymffurfio.

# Atodiad un – Cynnydd yn erbyn argymhellion blaenorol

Mae Arolygiaeth Prawf EM wedi gwneud argymhellion ar gyfer y cwmnïau adsefydlu cymunedol blaenorol (CRC) ac adrannau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS), sy'n deillio o arolygiadau craidd a thematig. Ers uno'r gwasanaeth prawf, rydym wedi disgwyl i'r gwasanaeth prawf newydd barhau i weithredu'r argymhellion hyn. Gweler isod ein canfyddiadau o arolygiad PDU Abertawe, Castell-nedd Port Talbot mewn perthynas â'r argymhellion perthnasol:

**Argymhelliad gan arolygiad o wasanaethau prawf a ddarperir yng Nghymru gan KSS Community Rehabilitation Company, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019:**

Rheoli llwyth gwaith staff yn well, a darparu digon o staff i ddarparu gwasanaethau yn ôl y bwriad.

**Canfyddiadau'r arolygiad:**

- Mae'r gyfradd gyffredinol o ran gadael yn 15.6 y cant (14.2 y cant ar gyfer swyddogion prawf (PO), 10 y cant ar gyfer swyddogion y gwasanaeth prawf (PSO)). Mae cyfradd gyffredinol swyddi gwag yn 18 y cant.
- Cyfartaledd llwyth achosion PO yw 32.53 ac i PSO mae'n 37.46. Ond mae gan 27 y cant o PO ac 20 y cant o PSO lwyth gwaith dros 110 y cant o'r pecyn rheoli llwyth gwaith.
- Yn ein harolwg ymarferwyr, dywedodd 81 y cant fod eu llwyth achosion yn llai na 40. O'r ymarferwyr hynny a gyfwelwyd yn ystod yr arolygiad, dywedodd 53 y cant fod eu llwyth achosion hyd at 40, gyda 39 y cant arall yn dweud ei fod rhwng 41 a 50. Dim ond 41 y cant o ymarferwyr yn ein harolwg ddywedodd fod eu llwyth achosion yn hylaw iawn neu'n weddol hylaw, ynghyd â 48 y cant o'r ymarferwyr hynny a gyfwelwyd.
- I gydnabod hyn, mae tîm generig arall yn cael ei greu er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r timau arbenigol.

| | |
|---|---|
| **Categoreiddio** | **Rhywfaint o gynnydd** |
| **Angen gwella o hyd?** | **Oes** |

**Argymhelliad gan arolygiad o wasanaethau prawf a ddarperir yng Nghymru gan KSS Community Rehabilitation Company, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019:**

Gwella ansawdd cynllunio er mwyn mynd i'r afael â'r risg o niwed a diogelu.

**Canfyddiadau'r arolygiad:**

- Yn ystod yr arolygiad diwethaf o CRC Cymru yn ein hadolygiad rheoli achosion parth dau, mewn 48 y cant yn unig o achosion yr oedd cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel. Yn yr arolygiad hwn gwelsom fod y ffigur hwn yn 46 y cant.

| | |
|---|---|
| **Categoreiddio** | **Dim cynnydd** |
| **Angen gwella o hyd?** | **Oes** |

**Argymhelliad gan arolygiad o wasanaethau prawf a ddarperir yng Nghymru gan KSS Community Rehabilitation Company, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019:**

Darparu hyfforddiant a datblygiad sy'n diwallu anghenion staff ac yn monitro effaith hyfforddiant ar ymarfer.

**Canfyddiadau'r arolygiad:**

- Mae'n ofynnol i bob aelod newydd o staff gwblhau hyfforddiant craidd a dangos cymhwysedd cyn dyrannu achosion cymhleth.
- Adeg yr arolygiad, yr oedd 69 y cant o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu oedolion, roedd 74 y cant wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant a 70 y cant wedi cwblhau hyfforddiant ar drais domestig.
- Yn yr arolwg ymarferwyr, dywedodd 65 y cant fod y sefydliad yn hyrwyddo diwylliant o ddysgu a gwelliant parhaus yn frwd.
- Disgwylir i effaith hyfforddiant gael ei monitro drwy ymarfer myfyriol a goruchwyliaeth reolaidd, er mai dim ond 47 y cant a ddywedodd eu bod yn derbyn goruchwyliaeth yn ddigon aml yn ein harolwg ymarferwyr. Mae ein harolwg o achosion parth dau yn awgrymu nad yw effaith a budd hyfforddiant yn cael ei weld yn ymarferol eto.

**Categoreiddio** **Rhywfaint o gynnydd**

**Angen gwella o hyd?** **Oes**

**Argymhelliad gan arolygiad o wasanaethau prawf a ddarperir yng Nghymru gan KSS Community Rehabilitation Company, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019:**

Galluogi rheolwyr tîm i ddarparu goruchwyliaeth effeithiol gan reolwyr dros ymarfer.

**Canfyddiadau'r arolygiad:**

- Dywedodd rheolwyr canol y siaradwyd â nhw wrthym eu bod yn gyfrifol am rhwng 12 a 18 aelod o staff. Dywedodd y rhan fwyaf eu bod yn gallu ymdopi â hyn ond ei fod yn anodd, yn enwedig gyda chyfyngiadau'r pandemig wedi'u dwysau gan wagio Tŷ Gorllewin Morgannwg yn ddiweddar.
- Yn ein harolwg ymarferwyr, dywedodd 58 y cant eu bod yn derbyn goruchwyliaeth sy'n gwella ansawdd eu gwaith gyda phobl ar brawf.
- Fodd bynnag, yn ein dau adolygiad o waith achos, gwelsom mewn 22 allan o 36 o achosion lle'r oedd angen hynny, roedd goruchwyliaeth y rheolwyr yn annigonol, yn aneffeithiol neu'n absennol.
- Roedd uwch reolwyr yn cydnabod y pwysau hwn ac mae seithfed tîm yn cael ei greu i leihau rhychwant rheolaeth unigol, ond mae angen gwneud rhagor o waith ar sicrhau ansawdd rheoli achosion yn effeithiol.

**Categoreiddio** **Dim cynnydd**

**Angen gwella o hyd?** **Oes**

**Argymhelliad gan arolygiad o wasanaethau prawf a ddarperir yng Nghymru gan KSS Community Rehabilitation Company, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019:**

Gwella'r gwaith o gydlynu gweithgareddau ailsefydlu.

**Canfyddiadau'r arolygiad:**

- Ers mis Mehefin 2021, mae staff sy'n darparu cymorth ailsefydlu i garcharorion yng Ngharchar EM Abertawe wedi cael eu cyflogi gan y tîm dedfrydau tymor byr, sy'n cynnig gwasanaeth mewnol. Mae PDU Abertawe Castell-nedd Port Talbot wedi mabwysiadu'r model hwn yn gynnar. Mae'n ymddangos bod y gwasanaeth cychwynnol hwn yn datblygu'n briodol.
- Ymddengys bod dynion sy'n bwrw dedfrydau tymor hwy yn llai tebygol o dderbyn y ddarpariaeth lawn a ddisgwylir dan y model rheoli troseddwyr yn y ddalfa, tra bo'r gefnogaeth gyfatebol i fenywod yn ymddangos yn fwy sefydledig ac wedi'i gydlynu'n well.
- Serch hynny, yn gyffredinol, mae ansawdd y gwaith a wneir ar achosion trwyddedau ôl-ryddhau o ran asesu a chynllunio yn well na'r gwaith a wneir ar orchmynion cymunedol.

**Categoreiddio** **Rhywfaint o gynnydd**

**Angen gwella o hyd?** **Oes**

**Argymhelliad gan arolygiad o wasanaethau prawf a ddarperir yng Nghymru gan KSS Community Rehabilitation Company, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019:**

Sicrhau bod yr holl adeiladau a TGCh (technoleg gwybodaeth a chyfathrebu) yn cefnogi staff i ddarparu gwasanaethau effeithiol.

Nid yw'r argymhelliad hwn yn berthnasol mwyach.

**Argymhelliad gan arolygiad o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019:**

Adolygu a rheoli llwythi gwaith yn weithredol er mwyn sicrhau bod gwaith yn cael ei ddosbarthu'n deg ac yn effeithlon.

**Canfyddiadau'r arolygiad:**

- Gyda'r fframwaith haenau newydd wedi'i gyflwyno ar draws Cymru a Lloegr ym mis
  Mehefin 2021, cafodd fframwaith llwyth gwaith newydd ei fabwysiadu hefyd. Er gwaethaf y canllawiau canolog, mae gwasanaeth prawf Cymru a PDU Abertawe Castell-nedd Port Talbot wedi mabwysiadu rhai amrywiadau a phwysoliadau i adlewyrchu cymhlethdodau rhai gwasanaethau arbenigol, yn enwedig y tîm dedfrydau tymor byr a'r tîm menywod.

**Categoreiddio** **Rhywfaint o gynnydd**

**Angen gwella o hyd?** **Oes**

**Argymhelliad gan arolygiad o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019:**

Gwneud defnydd priodol ac effeithiol o'r gwasanaethau a ddarperir dan gomisiwn gan y CRC.

Nid yw'r argymhelliad hwn yn berthnasol mwyach.

**Argymhelliad gan arolygiad o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019:**

Gwella'r broses o gael gwybodaeth berthnasol gan y gwasanaethau plant ac unedau cam-drin domestig ym mhob achos perthnasol.

**Canfyddiadau'r arolygiad:**

- Dim ond yn hanner yr achosion a arolygwyd yr oedd archwiliadau cam-drin domestig yn cael eu cynnal ac mewn dim ond 23 y cant o achosion y cafodd gwybodaeth diogelu plant ei rhannu.

**Categoreiddio** **Dim cynnydd**

**Angen gwella o hyd?** **Oes**

**Argymhelliad gan arolygiad o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019:**

Cynnal asesiadau risg o niwed ym mhob achos perthnasol.

**Canfyddiadau'r arolygiad:**

- Yn ein hadolygiad achosion parth dau gwelsom yn 65 y cant o'r achosion nad oedd yr asesiad yn nodi'n glir yr holl ffactorau perthnasol.

**Categoreiddio** **Dim cynnydd**

**Angen gwella o hyd?** **Oes**

**Argymhelliad gan arolygiad o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019:**

Gwella'r defnydd o gronfa ddata'r gofrestr o droseddwyr treisgar a throseddwyr rhyw (ViSOR) i rannu gwybodaeth gyda'r heddlu a charchardai.

**Canfyddiadau'r arolygiad:**

- Mae hyfforddiant diweddar wedi cael ei gynnal i gynyddu nifer y staff sydd â mynediad at ViSOR i bump, o un. Mae cyfyngiadau wedi bod yn anochel oherwydd pandemig Covid-19 a diffyg mynediad at Dŷ Gorllewin Morgannwg. Ar ôl i'r staff ddychwelyd i'r brif swyddfa, rhagwelir y bydd pob PO yn ymgymryd â hyfforddiant ViSOR.

**Categoreiddio** **Rhywfaint o gynnydd**

**Angen gwella o hyd?** **Oes**

**Argymhelliad gan arolygiad o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019:**

Sicrhau bod unigolion yn gallu dechrau rhaglenni achrededig yn brydlon ar ôl y ddedfryd, neu cyn gynted ag y byddant yn barod i wneud hynny.

**Canfyddiadau'r arolygiad:**

- Mae darparu rhaglenni triniaeth achrededig ar gyfer troseddwyr rhyw (Horizons) a raglenni achrededig ar gyfer troseddwyr nad ydynt yn droseddwyr rhyw wedi cael eu llesteirio'n ddifrifol gan y pandemig Covid-19 cenedlaethol a chan ddarganfod asbestos yn lleol. O ganlyniad, mae ôl-groniadau sylweddol, gyda 64 y cant o'r rhai a nodwyd ar gyfer Horizons yn dal i aros i gael dechrau a 75 y cant o'r rhai yn aros am y Rhaglen Sgiliau Meddwl neu'r cwrs Meithrin Perthnasoedd Gwell (BBR) yn dal heb fynychu eu sesiwn gyntaf.

**Categoreiddio** **Dim cynnydd**

**Angen gwella o hyd?** **Oes**

**Argymhelliad gan arolygiad o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019:**

Sicrhau y gwneir defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau Swyddogion Gwasanaeth Prawf (PSO).

**Canfyddiadau'r arolygiad:**

- Mae cyfarfodydd gosod tasgau wythnosol yn sicrhau bod tasgau a gynlluniwyd yn cael eu dyrannu'n briodol a bod y PO a'r PSO yn cadw at y tasgau a'r targedau.
  Roedd y staff y siaradwyd â nhw'n teimlo bod y model yn gweithio'n dda.

**Categoreiddio** **Cynnydd digonol**

**Angen gwella o hyd?** **Nac oes**

**Argymhelliad gan arolygiad o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019:**

Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM recriwtio digon o staff prawf i lenwi swyddi gwag yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr.

Nid yw'r argymhelliad hwn yn berthnasol mwyach.

**Argymhelliad gan arolygiad o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019:**

Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sicrhau bod y broses ar gyfer adolygu gorchmynion gwaith yn y contract rheoli cyfleusterau yn rhoi blaenoriaeth i warchod y cyhoedd.

Nid yw'r argymhelliad hwn yn berthnasol mwyach.

# Atodiad dau – Data

**Data staffio allweddol**[16]

| | |
|---|---|
| Cyfanswm nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn) (FTE)) | 137 |
| Cyfanswm nifer y swyddogion prawf (PO) (rheoli dedfrydau) (FTE) | 37.84 |
| Cyfanswm nifer y swyddogion gwasanaethau prawf (PSO) (rheoli dedfrydau) (FTE) | 22.7 |
| Cyfanswm nifer yr uwch swyddogion prawf (SPO) (rheoli dedfrydau) (FTE) | 6.57 |
| Cymhwyster Proffesiynol mewn Prawf (PQiP) hyfforddeion | 7 |
| Cyngor i staff y llys | 10.22 |
| Staff ailsefydlu | 8.5 |
| Cyfradd y swyddi gwag (cyfanswm y swyddi heb eu llenwi fel canran o gyfanswm y staff) | 18% |
| Cyfradd y swyddi gwag ar gyfer SPO graddfa rheoli dedfrydau yn unig (cyfanswm y swyddi heb eu llenwi fel canran o gyfanswm nifer y swyddi SPO sy'n ofynnol) | -6% |
| Cyfradd y swyddi gwag ar gyfer PO graddfa rheoli dedfrydau yn unig (cyfanswm y swyddi heb eu llenwi fel canran o gyfanswm nifer y swyddi PO sy'n ofynnol) | -4% |
| Cyfradd y swyddi gwag ar gyfer SPO graddfa rheoli dedfrydau yn unig (cyfanswm y swyddi heb eu llenwi fel canran o gyfanswm nifer y swyddi PO sy'n ofynnol) | -8% |
| Cyfradd absenoldeb salwch (diwrnodau cyfartalog a gollwyd yn ystod y 12 mis blaenorol ar gyfer yr holl staff) | 12.7 |
| Cyfradd absenoldeb salwch SPO (diwrnodau cyfartalog a gollwyd yn ystod y 12 mis blaenorol ar gyfer SPO) | 1.1 |
| Cyfradd absenoldeb salwch PO (diwrnodau cyfartalog a gollwyd yn ystod y 12 mis blaenorol ar gyfer PO) | 16.5 |

[16] Data a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Prawf.

| | |
|---|---|
| Cyfradd absenoldeb salwch PSO (diwrnodau cyfartalog a gollwyd yn ystod y 12 mis blaenorol ar gyfer PSO) | 8.4 |
| Lefelau gadael staff (canran o'r holl staff a adawodd yn ystod y cyfnod o 12 mis blaenorol) | 15.6% |
| Staff yn gadael cyfradd SPO yn unig (canran o'r holl staff graddfa SPO a adawodd yn y cyfnod o 12 mis blaenorol) | 0% |
| Staff yn gadael cyfradd PO yn unig (canran o holl staff graddfa PO yn gadael yn y cyfnod o 12 mis blaenorol) | 14.2% |
| Staff yn gadael cyfradd PSO yn unig (canran o'r holl staff graddfa PSO a adawodd yn y cyfnod o 12 mis blaenorol) | 10.0% |

**Data gwaith llys**

| 2.1 Gwaith llys | |
|---|---|
| **A yw'r cyngor a'r wybodaeth cyn-dedfrydu a ddarperir i'r llys yn ddigon dadansoddol a phersonol i'r unigolyn, i gefnogi penderfyniadau'r llys?[17]** | |
| A yw'r wybodaeth a'r cyngor yn defnyddio digon ar y ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth am ddiogelu plant a cham-drin domestig? | 50% |
| A yw'r unigolyn yn cael ei gynnwys yn ystyrlon yn y gwaith o baratoi'r adroddiad, ac a yw ei safbwyntiau'n cael eu hystyried? | 85% |
| A yw'r cyngor yn ystyried ffactorau sy'n gysylltiedig â'r tebygolrwydd o aildroseddu? | 80% |
| A yw'r cyngor yn ystyried ffactorau sy'n gysylltiedig â risg o niwed? ** | 65% |
| A yw'r cyngor yn ystyried cymhelliant yr unigolyn a'i barodrwydd i newid? | 65% |
| A yw'r cyngor yn ystyried amrywiaeth ac amgylchiadau personol yr unigolyn? | 90% |
| A yw'r cyngor yn ystyried effaith y drosedd ar ddioddefwyr hysbys neu y gellir eu hadnabod? | 45% |

[17] Dim ond mewn achosion lle mae adroddiad diweddar wedi cael ei baratoi yn yr uned gyflawni gwasanaeth prawf a arolygwyd y gofynnir y cwestiwn hwn.

| | |
|---|---|
| A wneir cynnig priodol i'r llys? ** | 75% |
| A oes cofnod digonol o'r cyngor a roddwyd, a'r rhesymau drosto? | 90% |

Nid yw'r cwestiynau a nodir ** yn berthnasol ym mhob achos, a dim ond atebion cadarnhaol a adroddir yma.

**Data goruchwylio achosion**

| 2.2. Asesu | Dedfrydau cymunedol | Dedfrydau ôl-ryddhau | Pob achos |
|---|---|---|---|
| **A yw'r asesiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar ymgysylltu â'r person sydd ar brawf?** | | | |
| A yw'r asesiad yn dadansoddi cymhelliant a pharodrwydd y person ar brawf i ymgysylltu a chydymffurfio â'r ddedfryd? | 38% | 81% | 55% |
| A yw'r asesiad yn dadansoddi nodweddion gwarchodedig yr unigolyn ac yn ystyried yr effaith a gaiff y rhain ar eu gallu i gydymffurfio ac ymgysylltu â darpariaeth gwasanaethau? | 38% | 56% | 45% |
| A yw'r asesiad yn dadansoddi amgylchiadau personol yr unigolyn, ac yn ystyried yr effaith y mae'r rhain yn ei chael ar eu gallu i gydymffurfio ac ymgysylltu â darparu gwasanaethau? | 38% | 75% | 53% |
| A yw'r person sydd ar brawf yn cymryd rhan ystyrlon yn eu hasesiad, ac a yw eu barn yn cael ei hystyried? | 39% | 50% | 44% |

| **A yw'r asesiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar y ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu ac ymatal rhag troseddu?** | | | |
|---|---|---|---|
| A yw'r asesiad yn nodi ac yn dadansoddi ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu? | 46% | 88% | 63% |
| A yw'r asesiad yn nodi cryfderau a ffactorau amddiffynnol y person sydd ar brawf? ** | 42% | 47% | 44% |
| A yw'r asesiad yn defnyddio digon ar y ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael? | 42% | 81% | 58% |
| **A yw'r asesiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?** | | | |
| A yw'r asesiad yn nodi ac yn dadansoddi'n glir unrhyw risg o niwed i eraill, gan gynnwys nodi pwy sydd yn wynebu risg a natur y risg honno? | 13% | 6% | 10% |
| A yw'r asesiad yn gwneud defnydd digonol o ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys ymddygiad ac euogfarnau blaenorol, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol? | 21% | 44% | 30% |
| A yw'r asesiad yn dadansoddi unrhyw risgiau a phryderon penodol sy'n gysylltiedig â dioddefwyr gwirioneddol a phosibl? ** | 21% | 38% | 28% |

Nid yw'r cwestiynau a nodir ** yn berthnasol ym mhob achos, a dim ond atebion cadarnhaol a adroddir yma.

| 2.3. Cynllunio | Dedfrydau cymunedol | Dedfrydau ôl-ryddhau | Pob achos |
|---|---|---|---|
| **A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar ymgysylltu â'r person sydd ar brawf?** | | | |
| A yw'r person sydd ar brawf yn cymryd rhan ystyrlon yn eu hasesiad, ac a yw eu barn yn cael ei hystyried? | 33% | 31% | 33% |
| A yw'r gwaith cynllunio'n rhoi digon o ystyriaeth i ffactorau amrywiaeth yr unigolyn a allai effeithio ar ymgysylltu a chydymffurfio? ** | 21% | 38% | 28% |
| A yw'r gwaith cynllunio'n rhoi digon o sylw i amgylchiadau personol yr unigolyn a allai effeithio ar ymgysylltu a chydymffurfio? ** | 33% | 50% | 40% |
| A yw'r gwaith cynllunio'n rhoi ystyriaeth ddigonol i barodrwydd a chymhelliant yr unigolyn sydd ar brawf i newid a allai effeithio ar ymgysylltu a chydymffurfio? | 29% | 63% | 43% |
| A yw'r gwaith cynllunio'n nodi sut y bydd holl ofynion y ddedfryd neu oruchwyliaeth ar drwydded/ôl-dedfrydu yn cael eu cyflawni o fewn yr amserlenni sydd ar gael? | 38% | 69% | 50% |
| A yw'r gwaith cynllunio'n pennu lefel, patrwm a math o gyswllt sy'n ddigonol i ymgysylltu â'r unigolyn ac i gefnogi effeithiolrwydd ymyriadau penodol? | 54% | 50% | 53% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **A yw'r cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar leihau aildroseddu a chefnogi ymatal?** | | | |
| A yw'r cynllunio'n adlewyrchu ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu yn ddigonol ac yn blaenoriaethu'r rhai sydd fwyaf hanfodol? * | 25% | 63% | 40% |
| A yw'r gwaith cynllunio'n adeiladu ar gryfderau a ffactorau amddiffynnol yr unigolyn, gan ddefnyddio ffynonellau cymorth posibl? ** | 17% | 31% | 23% |
| A yw'r gwaith cynllunio'n nodi'r gwasanaethau sydd fwyaf tebygol o leihau aildroseddu a chefnogi ymatal? | 42% | 56% | 48% |
| **A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?** | | | |
| A yw'r gwaith cynllunio'n adlewyrchu ffactorau risg o niwed yn ddigonol ac yn blaenoriaethu'r rhai sydd fwyaf hanfodol? ** | 13% | 56% | 30% |
| A yw'r gwaith cynllunio'n nodi'r ymyriadau adeiladol a/neu gyfyngol angenrheidiol i reoli'r risg o niwed? ** | 33% | 63% | 45% |
| A yw'r gwaith cynllunio'n gwneud cysylltiadau priodol â gwaith asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r person sydd ar brawf ac unrhyw gynlluniau aml-asiantaeth? ** | 21% | 50% | 33% |
| A yw'r gwaith cynllunio'n nodi'r trefniadau wrth gefn angenrheidiol ac effeithiol i | 17% | 50% | 31% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| reoli'r risgiau hynny sydd wedi'u nodi? ** | | | |

Nid yw'r promtiau a nodir gyda * yn berthnasol mewn achosion gwaith di-dâl yn unig.

Nid yw'r cwestiynau a nodir gyda ** yn berthnasol ym mhob achos, a dim ond atebion cadarnhaol a adroddir yma.

| 2.4 Gweithredu a darparu | Dedfrydau cymunedol | Dedfrydau ôl-ryddhau | Pob achos |
|---|---|---|---|
| **A yw'r ddedfryd neu'r cyfnod ar ôl cystodaeth yn cael ei weithredu'n effeithiol gan ganolbwyntio ar ymgysylltu â'r person sydd ar brawf?** | | | |
| A yw gofynion y ddedfryd yn dechrau'n brydlon, neu ar adeg briodol? | 50% | 81% | 63% |
| A roddir digon o ffocws ar gynnal perthynas waith effeithiol gyda'r person sydd ar brawf, gan ystyried ei anghenion o ran amrywiaeth? | 63% | 81% | 70% |
| A yw digon o ymdrechion yn cael eu gwneud i alluogi'r unigolyn i gwblhau ei ddedfryd, gan gynnwys hyblygrwydd i roi ystyriaeth briodol i'w amgylchiadau personol? | 71% | 94% | 80% |
| A yw risgiau o beidio â chydymffurfio yn cael eu nodi a'u datrys yn brydlon er mwyn lleihau'r angen am gamau gorfodi? ** | 25% | 75% | 45% |
| A yw camau gorfodi'n cael eu cymryd pan fo hynny'n briodol? ** | 29% | 63% | 43% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A oes digon o ymdrechion wedi'u gwneud i ail-ymgysylltu â'r unigolyn ar ôl camau gorfodi neu alw'n ôl? ** | 33% | 63% | 45% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi ymatal yn effeithiol?** | | | |
| Ai'r gwasanaethau a ddarperir yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o leihau aildroseddu a chefnogi ymatal, gan roi sylw digonol i ddilyniant a'r amserlenni sydd ar gael? | 50% | 56% | 53% |
| Lle bynnag y bo modd, a yw darparu gwasanaethau'n adeiladu ar gryfderau'r unigolyn ac yn gwella ffactorau amddiffynnol? ** | 25% | 38% | 30% |
| A yw'r gwaith o gynnwys sefydliadau eraill wrth ddarparu gwasanaethau wedi'i gydlynu'n dda? * ** | 22% | 69% | 41% |
| A yw unigolion allweddol ym mywyd y person sydd ar brawf yn ymgysylltu lle bo hynny'n briodol i gefnogi eu hymataliad? * ** | 17% | 38% | 25% |
| A yw lefel a natur y cyswllt yn ddigon i leihau aildroseddu a chefnogi ymatal? | 54% | 25% | 43% |
| A yw gwasanaethau lleol yn cael eu defnyddio i gefnogi a chynnal ymatal yn ystod y ddedfryd a thu hwnt? * ** | 38% | 75% | 53% |
| **A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A yw lefel a natur y cyswllt a gynigir yn ddigon i reoli a lleihau'r risg o niwed? ** | 29% | 56% | 40% |
| A roddir digon o sylw i amddiffyn dioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posibl? ** | 25% | 38% | 30% |
| A yw cyfraniad asiantaethau eraill at reoli a lleihau'r risg o niwed wedi'i gydlynu'n ddigonol? * ** | 35% | 44% | 38% |
| A yw unigolion allweddol ym mywyd y person sydd ar brawf yn ymgysylltu lle bo hynny'n briodol i gefnogi rheoli'r risg o niwed yn effeithiol? * ** | 8% | 31% | 18% |
| A gynhelir ymweliadau cartref lle bo angen i gefnogi'r gwaith o reoli'r risg o niwed yn effeithiol? * ** | 33% | 63% | 45% |
| **Promtiau sy'n berthnasol i achosion ar ôl cystodaeth yn unig:** | | | |
| Achosion ar ôl cystodaeth yn unig: A wnaeth y rheolwr troseddwyr cymunedol sicrhau lefel gymesur o gyswllt gyda'r carcharor cyn ei ryddhau? | 8% | 69% | 33% |
| Achosion ar ôl cystodaeth yn unig: A wnaeth y rheolwr troseddwyr cymunedol roi sylw i'r prif anghenion ailsefydlu neu ymatal cyn rhyddhau? | 0% | 63% | 25% |
| Achosion ar ôl cystodaeth yn unig: A wnaeth y rheolwr troseddwyr cymunedol fynd i'r afael ag anghenion risg | 0% | 50% | 20% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| allweddol o niwed cyn rhyddhau? | | | |

Nid yw'r promtiau a nodir gyda * yn berthnasol mewn achosion gwaith di-dâl yn unig.

Nid yw'r cwestiynau a nodir gyda ** yn berthnasol ym mhob achos, a dim ond atebion cadarnhaol a adroddir yma.

| 2.5 Adolygu | Dedfrydau cymunedol | Dedfrydau ôl-ryddhau | Pob achos |
|---|---|---|---|
| **A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi cydymffurfiad ac ymgysylltiad y person sydd ar brawf?** | | | |
| A yw'r gwaith adolygu'n ystyried lefelau cydymffurfio ac ymgysylltu ac unrhyw rwystrau perthnasol, gyda'r addasiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i'r cynllun gwaith parhaus? ** | 50% | 63% | 55% |
| A yw'r person sydd ar brawf yn cymryd rhan ystyrlon yn y gwaith o adolygu ei gynnydd a'i ymgysylltu? | 42% | 44% | 43% |
| A yw adolygiadau ysgrifenedig yn cael eu cwblhau fel sy'n briodol fel cofnod ffurfiol o gamau gweithredu i weithredu'r ddedfryd? ** | 79% | 75% | 78% |
| **A yw'r gwaith adolygu yn canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymatal?** | | | |
| A yw'r gwaith adolygu'n nodi ac yn mynd i'r afael â newidiadau mewn ffactorau cysylltiedig ag ymddygiad troseddol, gyda'r addasiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i'r cynllun gwaith parhaus? * | 50% | 50% | 50% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar adeiladu ar gryfderau a gwella ffactorau amddiffynnol y person sydd ar brawf? ** | 33% | 25% | 30% |
| A yw'r gwaith adolygu'n cael ei oleuo gan y mewnbwn angenrheidiol gan asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda'r person sydd ar brawf? ** | 29% | 50% | 38% |
| A yw adolygiadau ysgrifenedig yn cael eu cwblhau fel sy'n briodol fel cofnod ffurfiol o gynnydd tuag at ymatal? ** | 75% | 75% | 75% |
| **A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?** | | | |
| A yw'r gwaith adolygu'n nodi ac yn mynd i'r afael â newidiadau mewn ffactorau cysylltiedig â'r risg o niwed, gyda'r addasiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i'r cynllun gwaith parhaus? ** | 25% | 44% | 33% |
| A yw'r gwaith adolygu'n cael ei oleuo gan y mewnbwn angenrheidiol gan asiantaethau eraill sy'n ymwneud â rheoli'r risg o niwed? ** | 29% | 44% | 35% |
| A yw'r person sydd ar brawf (a, lle bo hynny'n briodol, yn unigolion allweddol yn eu bywyd) yn ymwneud yn ystyrlon ag adolygu'r risg o niwed? * ** | 17% | 19% | 18% |
| A yw adolygiadau ysgrifenedig yn cael eu cwblhau fel sy'n | 63% | 56% | 60% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| briodol fel cofnod ffurfiol o reoli'r risg o niwed? ** | | | |

Nid yw'r promtiau a nodir gyda * yn berthnasol mewn achosion gwaith di-dâl yn unig.

Nid yw'r cwestiynau a nodir gyda ** yn berthnasol ym mhob achos, a dim ond atebion cadarnhaol a adroddir yma.

| Canlyniadau | Dedfrydau cymunedol | Dedfrydau ôl-ryddhau | Pob achos |
|---|---|---|---|
| **A yw'r canlyniadau cynnar yn dangos bod cynnydd rhesymol wedi'i wneud, yn unol ag anghenion personol y sawl sydd ar brawf?** | | | |
| A fu gwelliannau yn y ffactorau hynny sydd â'r cysylltiad agosaf â throseddu wrth ddatblygu cryfderau a mynd i'r afael ag anghenion? | 17% | 27% | 21% |
| A fu gostyngiad yn y ffactorau sydd â'r cysylltiad agosaf â'r risg o niwed i eraill? ** | 8% | 13% | 10% |
| A fu gostyngiad mewn troseddu? | 29% | 28% | 15% |
| Beth oedd statws llety'r unigolyn ar ddechrau'r gorchymyn/trwydded? | | | |
| Wedi setlo | 92% | 38% | 71% |
| Dros dro | 8% | 50% | 25% |
| Digartref | 0% | 13% | 5% |
| Beth oedd statws llety'r unigolyn ar adeg yr arolygiad/trwydded? | | | |
| Wedi setlo | 87% | 70% | 81% |
| Dros dro | 12% | 13% | 13% |
| Digartref | 0% | 19% | 8% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Beth oedd statws addysg, hyfforddiant, cyflogaeth (ETE) yr unigolyn ar ddechrau'r gorchymyn/trwydded?<br>Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth amser llawn<br>Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth rhan-amser<br>Di-waith<br>Ddim ar gael i weithio | 37%<br>0%<br>21%<br>42% | 0%<br>0%<br>63%<br>38% | 24%<br>0%<br>38%<br>40% |
| Beth oedd statws addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yr unigolyn ar adeg yr arolygiad?<br>Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth amser llawn<br>Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth rhan-amser<br>Di-waith<br>Ddim yn gwybod | 37%<br>0%<br>13%<br>42%<br>8% | 6%<br>0%<br>50%<br>44%<br>0% | 26%<br>0%<br>28%<br>43%<br>5% |

Nid yw'r cwestiynau a nodir gyda ** yn berthnasol ym mhob achos, a dim ond atebion cadarnhaol a adroddir yma.

# Atodiad tri – Dolenni Gwe

Mae rhagor o wybodaeth am y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynnal yr arolygiad hwn ar gael ar ein gwefan, gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

Ein gwaith (justiceinspectorates.gov.uk)

Mae'r eirfa a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn ar gael ar ein gwefan, gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-hmi-probation/about-our-work/documentation-area/probation-inspection/